**CSCA Caerdydd 2022 i 2032**

**Rhagair**

**Ein gweledigaeth yw gweld Caerdydd sy’n wirioneddol ddwyieithog.**

Rydym wedi cymryd camau breision tuag at y weledigaeth hon, ond ni allwn orffwys ar ein rhwyfau. Mae rhagor gennym i'w wneud o hyd er mwyn sicrhau bod prifddinas Cymru yn fan lle mae'r Gymraeg yn iaith fyw a bywiog y mae pob person ifanc yn cael cyfle i'w chlywed, ei siarad a'i mwynhau ym mhob agwedd ar eu bywydau ac yn cael ei chydnabod fel iaith sy’n agos at galon prifddinas ein cenedl.

Teimlaf yn gryf dros bwysigrwydd creu cyfleoedd i blant a phobl ifanc prifddinas Cymru ddod yn siaradwyr hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rydym am i'n system addysg sicrhau bod pob person ifanc, o bob un cymuned ledled Caerdydd yn cael y cyfle i siarad Cymraeg, i fod yn falch o'u hunaniaeth ac yn gallu dathlu a mwynhau'r ddwy iaith yn eu bywydau bob dydd.

Mae twf parhaus ein sector addysg Gymraeg ar draws pob cyfnod yn hanfodol i gyflawni hyn er mwyn cynyddu nifer y bobl o bob oed sy'n dod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rydym yn falch o fod yn ddinas amrywiol amlieithog; ein hawydd yw adeiladu ar hyn ac i bob person ifanc gael yr hyder a'r gallu i ddefnyddio eu holl ieithoedd yn hyderus gyda'u teuluoedd, eu cymunedau ac yn ddiweddarach i gario'r cyfoeth hwn o wybodaeth ieithyddol i'w mannau gwaith a'u bywydau fel oedolion.

Profwyd bod gallu dwyieithog neu amlieithog ag iddo nifer o fanteision, o enedigaeth hyd at henaint gyda dros hanner poblogaeth y byd yn gallu siarad dwy iaith neu fwy. Drwy alluogi ein pobl ifanc i fod yn ddwyieithog rydym yn gwneud dewis gweithredol i gynyddu datblygiad eu gweithrediadau gwybyddol a chymdeithasol. Wrth iddynt ddod yn oedolion dwyieithog, byddant yn cael mwy o gyfleoedd o fewn y gweithlu wrth i fwy o sefydliadau ledled y wlad ddarparu eu gwasanaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Pan ychwanegwch at hyn, y gall bod yn ddwyieithog helpu i ddiogelu rhag dechrau dementia, mae'n amlwg yng Nghymru mai’r Gymraeg yw ein rhodd i'w rhannu, rhodd sy'n ehangu cyfleoedd nid yn unig ar gyfer plentyndod ond gydol oes.

Mae'r Strategaeth Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd hon yn ceisio nodi'n glir ymrwymiad cadarn, dyheadau clir a'r camau yr ydym yn bwriadu eu blaenoriaethu yng Nghaerdydd gyda'n partneriaid i gryfhau twf addysg Gymraeg ymhellach a nifer ein dinasyddion sy'n ymgysylltu'n weithredol â'r Gymraeg ac yn ei defnyddio'n hyderus. Bydd hyn yn ei dro yn cyfrannu at godi proffil ein hiaith genedlaethol a’r mwynhad ohoni nawr ac yn y dyfodol.

**Arweinydd, Aelod Cabinet dros Addysg, Y Cyfarwyddwr Addysg**

**Prifddinas Cymru. Prifddinas Gymraeg.**

Yn ogystal â bod yn Brifddinas Cymru, mae gan Gaerdydd rôl bwysig i'w chwarae fel Prifddinas Gymraeg.

Mae hyn yn fwy na rôl symbolaidd.  Ar ôl gweld twf sylweddol yn y boblogaeth dros y ddau ddegawd diwethaf, mae Caerdydd wedi gwneud cyfraniad trawiadol at dwf y Gymraeg.

Dros y 30 mlynedd ddiwethaf, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd wedi mwy na dyblu gyda ffigyrau'r cyfrifiad diwethaf yn dangos bod dros 16% o boblogaeth y ddinas yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg. Mae gan Gaerdydd ar hyn o bryd y trydydd nifer uchaf[1] o siaradwyr Cymraeg fesul awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae hyn yn adlewyrchu'r gwaith rhagorol a wnaed ar draws y ddinas - yn cynnwys amrywiaeth o bartneriaid - i hyrwyddo'r Gymraeg ac yn dangos effaith mentrau partneriaeth fel y rhai a ddatblygwyd gan Weithgor Caerdydd Ddwyieithog.

Yr hyn sy'n amlwg hefyd yw pwysigrwydd canolog addysg Gymraeg ar gyfer twf y Gymraeg.  Mae data’r Cyfrifiad yn dweud wrthym, ymhlith unigolion 5-15 oed, fod canran y disgyblion sy’n gallu siarad Cymraeg wedi cynyddu o 7.5% yn 1981 i 26.7% yn 2011.  Mae data derbyn i ysgolion mwy diweddar hefyd yn dangos bod nifer y plant sydd wedi cofrestru mewn addysg Gymraeg wedi cynyddu 16% (1,752 o ddisgyblion) rhwng 2012 a 2018.

Mae'r ymrwymiad i wneud pob ysgol yng Nghaerdydd yn ysgol dda, y buddsoddiad o £280m mewn ysgolion a'r gwelliant parhaus o ran cyrhaeddiad addysgol i gyd wedi bod yn sail i'r twf hwn.  Wrth i Gaerdydd edrych i'r 10 mlynedd nesaf, bydd y Cyngor yn cadw ei ymrwymiad i wneud pob ysgol yng Nghaerdydd yn ysgol dda tra'n sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i fod yn nodwedd ddiffiniol ar addysg yng Nghaerdydd.

Mae’r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn nodi cyfres o ymrwymiadau uchelgeisiol i adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma.   Bydd y rhain yn sicrhau bod pob plentyn yn y ddinas yn gallu derbyn addysg Gymraeg, y bydd y nifer sy'n derbyn addysg Gymraeg yn cynyddu ac, drwy'r defnydd sylweddol ar y Gymraeg mewn addysg cyfrwng Saesneg, y bydd pob plentyn yn teimlo'n hyderus yn siarad Cymraeg.

[1] Arolwg Blynyddol y Boblogaeth

**Ein gweledigaeth: Caerdydd wirioneddol ddwyieithog.**

Byddwn yn sicrhau twf ein sector addysg Gymraeg ar draws pob cyfnod er mwyn cynyddu nifer y bobl o bob oed sy'n dod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r hyder a'r awydd i ddefnyddio eu holl ieithoedd ym mhob agwedd ar eu bywydau.

**Yn sail i'n gweledigaeth mae'r egwyddorion canlynol:**

- Bydd egwyddorion y 'cymdogaethau 15-munud'[2] yn cael eu cymhwyso i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cyrchu addysg Gymraeg o fewn pellter rhesymol i'w cartrefi.
- Ceisio sefydlu o leiaf 50% o'r ddarpariaeth newydd ar safleoedd y CDLl fel darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Gall pob plentyn yn y ddinas ddewis derbyn eu haddysg yn yr iaith o'u dewis gyda manteision addysg ddwyieithog yn cael eu hyrwyddo'n weithredol i bob rhiant o eni'r plentyn.
- Bydd rhieni'n cael cymorth i drosglwyddo eu plentyn, neu blant, i addysg Gymraeg ar unrhyw oedran, gyda throchi o ansawdd uchel yn cael ei gynnig i gefnogi ceisiadau trosglwyddo yn ystod y flwyddyn.
- Bydd dysgwyr sydd wedi cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg drwy'r cyfnod cynradd yn cael eu cefnogi'n rhagweithiol i barhau â darpariaeth uwchradd Gymraeg.
- Bydd y Cyngor yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid i hyrwyddo a chynyddu'n rhagweithiol ddwyieithrwydd Cymraeg/Saesneg.
- Bydd pob dysgwr yn cael cymorth i fod yn hyderus mewn dwy iaith o leiaf.
- Bydd holl ysgolion Caerdydd yn cynyddu faint o Gymraeg a addysgir, a ddefnyddir ac a glywir yn eu hysgolion, yn gyson â'r Cwricwlwm i Gymru newydd.
- Bydd dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael cyfle ieithyddol cyfartal.
- Bydd dysgwyr sydd â'r Gymraeg neu'r Saesneg fel ieithoedd ychwanegol yn cael cyfle ieithyddol cyfartal.
- Er mwyn hwyluso twf addysg Gymraeg byddwn yn ceisio cynnal capasiti ledled y ddinas yn y sector Cymraeg ar 10% uwchlaw'r nifer a ragamcenir.

[2] Cynllun Corfforaethol (caerdydd.gov.uk) t.56

**Er mwyn gwireddu ein gweledigaeth byddwn yn sicrhau bod:**

- Mwy o blant meithrin/tair oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cam o'u haddysg statudol i'r llall.
- Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau asesedig mewn Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol.
- Cynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg
- (Cymru) 2018.
- Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Cymraeg 2050**
***Miliwn o Siaradwyr Cymraeg a phwysigrwydd Addysg Gymraeg***

Cyd-destun Strategol

Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth Gymraeg *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg* yn unol ag Adran 78 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r strategaeth yn cefnogi 'hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg' a'i nod hirdymor yw i Gymru gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae'r strategaeth yn enwi addysg drochi cyfrwng Cymraeg fel y 'prif ddull ar gyfer sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac ar gyfer creu siaradwyr newydd' (*Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg, tud21).* Felly, bydd argaeledd addysg Gymraeg yn allweddol i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg.

Y targed cenedlaethol yw *"Cynyddu cyfran pob grŵp blwyddyn ysgol sy'n derbyn addysg Gymraeg o 22 y cant (yn seiliedig ar 7,700 o ddysgwyr saith oed yn 2015/16) i 30 y cant (tua 10,500 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2031, ac yna 40 y cant (tua 14,000 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2050*."

Cydnabyddir yn y strategaeth y bydd y dull yn amrywio ar draws gwahanol ranbarthau yng Nghymru yn dibynnu ar nodweddion eu poblogaethau. Mae'r strategaeth hefyd yn nodi ardaloedd sydd â dwysedd poblogaeth uchel ond canran is o siaradwyr Cymraeg fel ardaloedd sydd â photensial penodol ar gyfer twf.

Mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol osod targed deng mlynedd yn amlinellu'r cynnydd disgwyliedig yn y plant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal yr awdurdod lleol yn ystod oes Cynllun.

Mae Caerdydd wedi ymrwymo i sicrhau graddfa o dwf yn unol â'r 25-29% fel ag a roddwyd gan Lywodraeth Cymru[3]. Fodd bynnag, rhaid i'r targed lleol gydbwyso uchelgais gyda dealltwriaeth o'r tueddiadau sy'n bodoli, sy'n cynnwys gostyngiad yn y cyfraddau geni ac ansicrwydd cynyddol yn ymwneud â dewisiadau derbyn i ysgolion oherwydd y pandemig.

Targed deng mlynedd Caerdydd felly yw "cynyddu canran y plant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghaerdydd 9% i 27% o'r garfan gymwys."

Gwyddom o'n profiad ein hunain ac fel y nodir yn Cymraeg 2050 mai addysg drochi Gymraeg lawn – h.y. addysg mewn lleoliad Cymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf – yw'r ffordd fwyaf effeithiol a dibynadwy o greu unigolion sydd â'r sgiliau a'r hyder angenrheidiol i'w galluogi i ddefnyddio'r iaith yn naturiol ac yn gyfforddus yn eu bywydau bob dydd.

Wrth i'r cwricwlwm newydd gael ei gyflwyno bydd rôl addysg cyfrwng Saesneg yn dod yn gliriach o ran ei gallu i gynhyrchu dysgwyr sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg ac sydd

[3] I gael esboniad manwl o'r fethodoleg a weithredwyd ar gyfer pennu'r targed hwn, gweler y Nodyn Technegol yn (canllawiau-cynllun-strategol-cymraeg-mewn-addysg.pdf (llyw.cymru))

am ddefnyddio'r Gymraeg wrth symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu yn ystod eu gyrfa.

Cefndir deddfwriaethol a Statudol ar gyfer y CSCA

Un o'r prif flaenoriaethau yw trawsnewid sut mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu a'i hasesu er mwyn sicrhau y gall pob dysgwr fod yn hyderus yn eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg pan fyddant yn gadael yr ysgol.

Er mwyn annog a hwyluso twf hirdymor a chynaliadwy ar gyfer addysg Gymraeg a gwella safonau addysgu Cymraeg, bydd y CSCA yn ystyried y canlynol:

- Diwygiadau i'r system addysg (h.y. cwricwlwm ac asesu, atebolrwydd datblygu'r gweithlu a'r ymagwedd cenedlaethol tuag at ddysgu proffesiynol).
- Gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
- Rhaglen Colegau ac Ysgolion yr 21ain Ganrif
- Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd
- Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant
- Cytundeb cyfreithiol a wneir dan adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
- Gwasanaethau plant a phobl ifanc
- Cod derbyn i ysgolion
- Cod trefniadaeth ysgolion
- Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008
- Hyfforddiant ac Addysg Ôl-16
- Strategaethau Hyrwyddo 5 mlynedd awdurdodau lleol, a wnaed o dan safon 145 a 146 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015
- Cynlluniau Datblygu Lleol

Cyd-destun Demograffig

Dadansoddiad manwl o dueddiadau poblogaeth yng Nghaerdydd, gan ddefnyddio amcanestyniadau poblogaeth Llywodraeth Cymru a'r rhagolygon a baratowyd gan ddefnyddio data cofrestru meddygon teulu'r GIG, sy'n darogan lleihad mewn cyfraddau geni ledled y ddinas. O gofio’r cyd-destun hwn, mae’n amlwg y bydd sicrhau'r twf a dargedir yn y sector Cymraeg yn gofyn am ddull sy'n cydnabod holl

anghenion a nodweddion gwahanol ein cymunedau lleol wrth ddwyn cynigion ger bron ar gyfer newid.

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda'r holl bartneriaid a rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod addysg Gymraeg yn cael ei dosbarthu'n effeithiol ledled y ddinas, gan wneud y mwyaf o'r ddarpariaeth bresennol a'i gwella ac ychwanegu capasiti yn ôl yr angen yn y lleoliadau cywir. Bydd hyn yn berthnasol i bob cam dysgu, o'r blynyddoedd cynnar drwy'r ddarpariaeth addysg statudol yr holl ffordd drwodd i addysg uwch ac addysg bellach.

Ehangu Addysg Gymraeg

Mae Caerdydd wedi buddsoddi'n sylweddol yn nhwf addysg Gymraeg drwy ddarparu lleoedd ychwanegol wrth fynd i addysg gynradd ac wrth drosglwyddo i addysg uwchradd. Mae sefydlu'r ddarpariaeth drochi hynod lwyddiannus hefyd wedi chwarae rhan hanfodol o ran cefnogi a chynyddu nifer y trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn.

Ers 2010, mae Caerdydd wedi cynyddu'r capasiti Cymraeg sydd ar gael ar fynd i'r sector cynradd oddeutu 6 dosbarth mynediad (DM) ac mae nifer y disgyblion derbyn wedi cynyddu tua 0.25% y flwyddyn ar gyfartaledd rhwng Medi 2015 a Medi 2020.

Yn yr un cyfnod, ar lefel uwchradd mae'r awdurdod wedi sefydlu trydedd ysgol Gymraeg yng Nghaerdydd ynghyd ag ychwanegu capasiti yn un o'r ysgolion a oedd yma'n barod gan arwain at gynnydd cyffredinol o 7DM wrth fynd i flwyddyn 7.

Mae Caerdydd hefyd wedi sefydlu ei darpariaeth Drochi Cymraeg hynod lwyddiannus. Wedi'i sefydlu i ddechrau yn y sector cynradd i gefnogi rhieni i drosglwyddo eu plant i addysg cyfrwng Cymraeg, mae'r ddarpariaeth wedi tyfu i groesawu disgyblion yn CA3 a CA4. Mae hyn wedi golygu y gall disgyblion o Gaerdydd ac awdurdodau cyfagos bontio'n effeithiol o ysgolion Saesneg i ysgolion Cymraeg, gan ddod yn fyfyrwyr cwbl ddwyieithog a phrofi llwyddiant wrth gyrraedd pob carreg filltir allweddol.

Cydnabod heriau Cyflawni a Hyrwyddo'r Gymraeg drwy gydol ein Sector Addysg

Mae twf addysg Gymraeg yn llwyddiant y dylid ei ddathlu'n briodol, ond mae'n amlwg bod mwy i'w wneud. Er y bu cynnydd o ran maint y ddarpariaeth o ansawdd uchel a'r nifer sy'n manteisio ar leoedd cyfrwng Cymraeg, mae heriau'n parhau o hyd ynghlwm â thwf parhaus, yn enwedig o ystyried y gostyngiad yn y cyfraddau geni a'r angen i ddiwallu anghenion ein cymunedau amrywiol.

Wrth symud ymlaen byddwn yn sicrhau, fel dinas amrywiol, bod pawb yn deall manteision addysg Gymraeg a'r manteision cadarnhaol o gofleidio'r Gymraeg. Bydd hyn yn golygu ymgysylltu â chymunedau nad ydynt yn draddodiadol efallai wedi ystyried addysg Gymraeg i'w plant a datblygu dulliau wedi'u teilwra ar gyfer pob cymuned.

Yn ogystal â chynyddu nifer y bobl sy'n derbyn darpariaeth Gymraeg o'r blynyddoedd cynnar ac ar ddechrau addysg statudol, mae angen hefyd ystyried ymhellach rôl bosibl y ddarpariaeth Trochi Cymraeg fel rhan o strategaeth ragweithiol ar gyfer twf yn y dyfodol.

Mae hyn yn rhan o ddull cydgysylltiedig o sicrhau bod teuluoedd yn teimlo'n hyderus ac yn cael eu cefnogi pe baent yn dewis darpariaeth Gymraeg. Bydd hyn yn gofyn am rwydwaith cymorth pwrpasol sy'n rhan o'r cynnig ysgol ffurfiol ac nid yw'r pandemig diweddar ond wedi pwysleisio'r angen am gymorth caffael iaith dwys o'r math hwn. Yn ychwanegol at hyn, mae angen pwysleisio argaeledd lleoedd arbenigol yn y sector Cymraeg ar gyfer plant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a fydd yn eu galluogi i weld cynnydd yn unol â'u potensial.

Yn gyson ag ymrwymiadau'r Cyngor fel Dinas sy'n Dda i Blant, bydd y Cyngor yn parhau i ymgysylltu â phobl ifanc a'u teuluoedd ar nifer o faterion pwysig. Mae deall y rhesymau pam mae teuluoedd wedi dewis addysg Gymraeg, neu efallai pam nad ydynt wedi dewis Cymraeg i'w plant, yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mae angen deall hefyd pam y byddai pobl ifanc a allai fod wedi derbyn addysg statudol Gymraeg yn dewis peidio â dilyn addysg bellach neu addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn yr un modd, mae angen deall yn well pam y gallai diffyg hyder fod ar rai pobl ifanc i ddefnyddio unrhyw Gymraeg yn eu gyrfaoedd fel oedolion a'r hyn y credant y gallem ni ei wneud i newid hyn.

Rydym hefyd yn cydnabod nad yw manteision clywed, siarad a mwynhau dysgu yn Gymraeg wedi'u cyfyngu i'r rhai sy'n dewis addysg Gymraeg. Mae'n bwysig bod y Cyngor yn gosod disgwyliadau uchel o ran sut y bydd y cwricwlwm i Gymru newydd yn cael ei gyflwyno o ran darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer caffael iaith drwy ddysgu a defnyddio mwy o Gymraeg yn ein hysgolion Saesneg. Mae datblygiad ein model iaith ddeuol newydd i sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n llwyddiannus yn flaenoriaeth os ydym am sefydlu hyn fel templed ar gyfer ysgolion newydd eraill yn y dyfodol. Mae'r Strategaeth hon felly'n ailddatgan ymrwymiad Cyngor Caerdydd i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y ddinas a gwella faint o Gymraeg a ddefnyddir ym mhob un o'n hysgolion a'n darpariaethau addysgol.

<u>Llunio darpariaeth yn y Ddinas</u>

Bydd sicrhau twf cynaliadwy lleoedd cyfrwng Cymraeg a sicrhau cynnydd yn y galw yng nghyd-destun gostyngiad mewn cyfraddau geni yn gofyn am gynllunio manwl ar sail gwybodaeth. Mae dyrannu lleoedd cyfrwng Cymraeg o fewn y rhaglen fuddsoddi ysgolion Band B bresennol yn fan cychwyn rhagorol. Wrth symud ymlaen, mae'r cyfle i wneud y mwyaf o effaith Grantiau Cyfalaf Addysg Gymraeg, dyraniad ysgolion newydd a gaiff eu sicrhau drwy'r Cynllun Datblygu Lleol a'r potensial i ehangu'r ddarpariaeth ymhellach drwy Raglen Buddsoddi Mewn Ysgolion Band C yn cynnig cyfleoedd pellach sylweddol.

Mae Caerdydd hefyd yn parhau i fod â'r swm a argymhellir o lefydd gwag yn y sector cynradd Cymraeg, er bod amrywiannau yn y cyfraddau derbyn ar draws y ddinas. Mae hyn yn golygu bod pocedi o annigonolrwydd a nifer fach o ysgolion sy'n ei chael hi'n anodd denu nifer gyson o ddisgyblion i gefnogi hyfywedd.

Yn yr uwchradd, mae'r galw am leoedd wrth bontio i Flwyddyn 7 yn uchel ac mae lleoedd wedi'u cynyddu er mwyn ymateb i hyn wrth i'r garfan fwy ei maint o ddysgwyr symud ymlaen o'r sector cynradd. Fodd bynnag, roedd hyn cyn y gostyngiad a ragamcennir yn y boblogaeth gyffredinol. Yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd hynny,

mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael ag unrhyw gynnydd dros dro tymor byr a ragwelir i ddarparu ar gyfer carfanau poblogaeth ehangach penodol er mwyn sicrhau digonolrwydd lleoedd yn yr ardaloedd perthnasol. Gwneir hyn yng nghyd-destun ymarfer tymor hwy i nodi sut y gall buddsoddiad cyfalaf ar raddfa fawr yn hanner olaf y CSCA hwn gefnogi twf yn effeithiol ac yn gynaliadwy.

Wrth symud ymlaen, bydd Rhaglen Ysgolion Band B yr 21ain Ganrif uchelgeisiol y Cyngor yn buddsoddi £283 miliwn yn Ysgolion Caerdydd. Fel y rhaglen fuddsoddi ysgolion fwyaf yng Nghymru, bydd yn cynyddu'r ddarpariaeth ac yn gwella dosbarthiad capasiti ysgolion meithrin ac ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Bydd hefyd yn gwella'r cyfleusterau cymunedol sydd ar gael i gefnogi anghenion gofal plant ehangach. Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd unrhyw raglenni buddsoddi mewn ysgolion - fel Band C - yn cynnwys buddsoddiad ar raddfa fawr i ehangu'r sector Cymraeg uwchradd.

Er mwyn cyflawni'r targedau uchelgeisiol a osodwyd yn genedlaethol, ac er mwyn llwyddo i gyflawni ein dyheadau o ran addysg Gymraeg, mae angen ar fyrder i gynyddu nifer yr athrawon sy’n siarad Cymraeg yn rhugl. Mae hon yn her genedlaethol na ellir ei gorbwysleisio ac mae'n un a fydd yn gofyn am ymateb cydgysylltiedig gan bob lefel o Lywodraeth yng Nghymru. Felly, mae maint yr her yn mynnu lefelau digynsail o gydweithio ac ymyrraeth i sicrhau nad yw ansawdd uchel addysg Gymraeg yn cael ei wanhau ac y gellir gwella faint o Gymraeg a addysgir ar draws y system addysg.

<u>Prifddinas Gymraeg</u>

Fel Prifddinas i Gymru, mae Caerdydd wedi ymrwymo i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cymraeg 2050, ac mae'r Cyngor yn cydnabod yn llawn bwysigrwydd y gyfundrefn addysg wrth gyflawni'r dyhead hwn.

Felly, mae’r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yn nodi cynllun deng mlynedd Cyngor Caerdydd i gynyddu a gwella'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a’r Gymraeg fel pwnc addysgol. Mae'n adeiladu ar ein cyflawniadau hyd yma ac yn nodi'r camau y bwriadwn eu cymryd er mwyn gwneud pob dysgwr yng Nghaerdydd yn siaradwyr Cymraeg hyderus.

## Addewid Caerdydd i Weithredu

Mae'r adran hon o'r cynllun yn nodi'r camau y bwriadwn eu cymryd fel Cyngor Caerdydd ynghyd â'n partneriaid fel ein hymrwymiad ar y cyd i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd. O dan bob un o'r saith deilliant ceir gwybodaeth am rai o'n cyflawniadau diweddaraf ynghyd â'r sefyllfa bresennol, a'r camau penodol a gymerwn ar gyfer pob deilliant dros oes y cynllun hwn.

Mae'r camau trosfwaol hyn wedi'u rhannu'n ddau gyfnod o bum mlynedd yr un. Y set gyntaf o gamau gweithredu yw'r rhai yr ydym yn disgwyl eu blaenoriaethu yn hanner cyntaf y cynllun a fydd yn cyd-fynd â Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 5 Mlynedd Cyngor Caerdydd gyda nifer o dargedau a rennir. Bydd llawer o'r rhain yn sail i'r hyn sy'n dilyn a/neu'n sicrhau bod y camau gweithredu yn ystod yr ail bum mlynedd olaf wedi eu seilio ar wybodaeth ac yn adeiladu ar ddealltwriaeth gadarn o'r hyn y mae cymunedau lleol yn ei ddymuno gan eu hysgolion ac angen sicrhau bod yr hyder ganddynt i gofleidio'r iaith gyda'u plant ac ar gyfer eu haddysg.

Bydd hefyd yn cynnwys unrhyw gamau y mae eu hangen i sicrhau unrhyw gapasiti angenrheidiol er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cynnig lle cyfrwng Cymraeg i unrhyw deulu sy'n gofyn am le, ynghyd ag ymateb i'r angen i wella'r gefnogaeth yn dilyn y pandemig er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cyflawni eu potensial waeth beth fo'r heriau a achoswyd gan y tarfu hwn ar eu darpariaethau dysgu arferol.

Bydd yr ail bum mlynedd yn cynnwys mwy o gapasiti parhaol a fydd yn golygu bod angen ymgynghori statudol ac mewn rhai achosion gyfnodau cyn-adeiladu a chyfnodau adeiladu. Bydd hefyd yn adeiladu ar yr enillion cynnar o ran uwchsgilio iaith ymhlith y gweithlu ac yn galluogi mwy o gynnydd yn y Gymraeg a addysgir, a ddefnyddir ac a glywir ar draws pob ysgol yng Nghaerdydd ac mewn ystod ehangach o sefyllfaoedd cymdeithasol a gweithgareddau allgyrsiol.

Erbyn diwedd y cyfnod hwn byddem yn disgwyl ein bod wedi cyflawni'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun hwn a bod gennym ddealltwriaeth gadarn o sut rydym yn bwriadu symud ymlaen ac adeiladu ar ein cyflawniadau i gynllunio ar gyfer y CSCA nesaf er mwyn sicrhau ein bod yn parhau ar ein taflwybr fel rhan o'r daith genedlaethol tuag at Gymru gydag o leiaf 1 miliwn o bobl sy'n nodi eu bod yn hyderus i siarad a defnyddio'r Gymraeg.

## Y Camau Nesaf

Bydd rhagor o fanylion a chynlluniau gweithredu i alluogi gweithredu'r camau isod yn deillio o'r strategaeth gymeradwy cyn ei gweithredu yn rhan olaf 2022. Bydd y cynlluniau gweithredu hyn yn rhoi mwy o fanylion yn nodi cerrig milltir, dangosyddion llwyddiant, partneriaid sy'n cyd-fynd â chyflawni targedau a bennwyd ynghyd â gwybodaeth am fonitro a gwerthuso i gefnogi gwaith partneriaeth ac atebolrwydd ar y cyd.

Ar gyfer pob canlyniad byddwn yn:

- Cytuno ar yr ystod o gynrychiolaeth gan swyddogion a rhanddeiliaid i ffurfio is-grŵp i greu cynlluniau gweithredu i yrru'r gwaith hwn yn ei flaen.

- Gosod amserlen ar gyfer datblygu cynlluniau gweithredu gyda therfynau amser a nifer y cyfarfodydd
- Ailystyried cwmpas mecanweithiau Gorchwyl a Gorffen er mwyn sicrhau ffocws a sgiliau i gyflawni'r camau
- Datblygu cynlluniau gweithredu gan gynnwys sicrhau gwaelodlinau cyfredol, mireinio camau gweithredu, diffinio prosesau monitro a gwerthuso.
- Cytuno ar fecanweithiau cyfathrebu ac adrodd i Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd
- Gweithredu strategaeth gymeradwy a chynlluniau gweithredu cysylltiol ar y cyd â phartneriaid i wireddu'r weledigaeth a nodir.
- Adolygu'r cynllun a’r camau gweithredu a gyflawnwyd yn flynyddol gan adrodd yn ôl i'r Fforwm Addysg Gymraeg a Chaerdydd Ddwyieithog

Yn ogystal â'r broses adolygu flynyddol a amlinellir uchod, rydym yn bwriadu cynnal proses adolygu ffurfiol ar ôl 2 flynedd ac o bosibl yn diwygio deilliannau yn ôl yr angen unwaith y derbynnir diweddariadau o'r fath. Y rheswm dros hyn yw'r cyd-destun ehangach y caiff y cynllun hwn ei baratoi oddi mewn iddo. Mae gan yr ystod o newidiadau a gwybodaeth/canllawiau pellach a ddisgwylir dros y 18 mis i 2 flynedd nesaf y potensial i effeithio ar y camau gweithredu a sut y cânt eu cyflawni. Os bydd unrhyw dargedau ychwanegol yn cael eu hychwanegu neu os caiff y rhai a nodir eu diwygio, byddwn yn cyflwyno cynllun diwygiedig i Weinidogion Cymru fel y nodir yn Rheoliad 8.

Bydd unrhyw gynigion sy'n gofyn am fuddsoddiad cyfalaf yn amodol ar sicrhau ffrydiau ariannu perthnasol (Cyfalaf Addysg Gymraeg, Ysgolion y 21ain Ganrif, CDLI). Os na sicrheir cyllid o fewn yr amserlen ddynodedig, gallai hyn arwain at ailbroffilio o fewn y cynllun.

**Deilliant 1 - Mwy o blant meithrin/plant tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.**

Yng nghyfnod y CSCA blaenorol (2017-2020) mae Cyngor Caerdydd a phartneriaid wedi:

- Sefydlu Cylch Meithrin Pwll Coch a agorodd ym mis Medi 2020 a Chylch Meithrin Y Waun Ddyfal a agorodd ym mis Medi 2021
- Cynyddu nifer y lleoedd addysg feithrin Cymraeg sydd ar gael mewn ysgolion cymunedol a gynhelir.
- Sefydlu Is-grŵp Hyrwyddo Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd gweithredol i symud gwaith yn ei flaen o ran datblygu hyrwyddo ymhellach opsiynau addysg Gymraeg yn Ardal yr Awdurdod Lleol.

Ar hyn o bryd mae 18.5% o blant meithrin / plant tair oed sy'n cymryd lle mewn addysg feithrin yng Nghaerdydd yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae ein targedau ar gyfer y deng mlynedd nesaf fel y nodir yn y tabl isod[4]:

| Niferoedd a % y plant 3 oed sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| 698-740 | 19.0-19.8% | 733-790 | 19.8-21% | 755-826 | 20.5-22.1% | 778-863 | 21.3-23.3% | 803-902 | 22-24.4% |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| 830-943 | 22.8-25.6% | 857-984 | 23.5-26.7% | 883-1024 | 24.3-27.9% | 911-1066 | 25-29% | 931-1090 | 25.8-30.2% |

Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn a thyfu'r nifer sy'n manteisio ar leoedd addysg feithrin Cymraeg o 18.5% i rhwng 25-30% o'r garfan poblogaeth gymwys yn y 5 mlynedd cyntaf byddwn yn:

1. Gwella dealltwriaeth o anghenion a dewisiadau rhieni ar gyfer addysg eu plant drwy:

    a. Gynnal a gweithredu ar ganlyniad arolwg i rieni yn gofyn ynghylch pa ffynonellau y maent yn tueddu eu defnyddio ar gyfer gwybodaeth am addysg er mwyn targedu negeseuon yn well e.e. cyfryngau cymdeithasol, gwefan Awdurdod Lleol, gwefannau partneriaid neu ffynonellau llafar mewn cydweithrediad â Chaerdydd Ddwyieithog[5]

    b. Cynnal ymchwil ar lefel micro gyda Chaerdydd Ddwyieithog gan gynnwys ardaloedd penodol o'r ddinas lle mae'r nifer sy'n manteisio ar addysg Gymraeg yn isel a/neu o fewn grwpiau/cymunedau penodol sydd heb gynrychiolaeth ddigonol (gan gynnwys Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol) i ddeall y rhesymau dros hyn ynghyd â gweithredu hyrwyddiadau

[4]Ceir rhagor o wybodaeth am y rhain ar dud 8-9 y Taflwybr - Atodiad 1.
[5] Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-2027 Thema Un Amcan 1+2

pwrpasol o enedigaeth i oed meithrin yn ogystal â hyrwyddo manteision cyffredinol cadarnhaol bod yn ddwyieithog a dysgu Cymraeg ar yt cyd a Caerdydd Ddwyieithog[6]

c. Cefnogi menter beilot gan Caerdyddd Ddwyieithog i weithio'n ddwys mewn 2 ardal wahanol o'r ddinas gyda dwy ysgol gynradd sy'n profi gostyngiad yn nifer y plant sy'n chwilio am le yn y dosbarth derbyn/meithrin

2. Gwella cyfathrebu â rhieni drwy:

    - Gynnal prosiect peilot i gasglu gwybodaeth gan rieni wrth gofrestru genedigaethau eu plentyn/plant er mwyn sefydlu ffordd fwy uniongyrchol o gyfathrebu â theuluoedd, gan ganiatáu ar gyfer arolwg wedi ei dargedu o rieni newydd er mwyn hwyluso cyfathrebu mwy effeithiol ynghylch opsiynau meithrin ac ysgolion.
    - Darparu pecyn o wybodaeth hygyrch ac o ansawdd uchel i rieni a gofalwyr ar y cyd â sefydliadau partner ynghylch addysg Gymraeg a darpariaeth leol i hyrwyddo ymwybyddiaeth, ysgogi diddordeb a chefnogi penderfyniadau ar sail gwybodaeth[7]*

3. Cynnydd yng nghyfleoedd cymdeithasol cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar a chodi ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth hon law yn llaw â phartneriaid ac ar y cyd â Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog[8]

4. Cynyddu lleoedd gofal plant cofleidiol cyfrwng Cymraeg i gefnogi rhieni sy'n manteisio ar y cynnig gofal plant ar y cyd â'n partneriaid drwy ddatblygu lleoliadau newydd a/neu ehangu ac adleoli lleoliadau presennol i safleoedd ysgolion gan gynnwys:
    a. Adleoli ac ehangu darpariaeth y Cylch Meithrin sy'n gwasanaethu'r Eglwys Newydd i'w lleoli ar safle ysgol Gymraeg leol.
    b. Sefydlu lleoliad gofal sesiynol cyfrwng Cymraeg newydd yn yr ysgol newydd y cytunwyd arno ar gyfer Plasdŵr.

5. Darparu o leiaf 192 o leoedd addysg feithrin a gynhelir Cymraeg newydd erbyn 2025-2026 drwy fwrw ymlaen â chynigion i gynyddu'r ddarpariaeth gynradd Gymraeg sy'n gwasanaethu:
    - Trelái a Chaerau yn ne-orllewin y ddinas;
    - Trowbridge a Llaneirwg yn nwyrain y ddinas.
    - Llwynbedw, Gabalfa, Y Mynydd Bychan a Phlasnewydd yn ardal ganolog y ddinas.
    - Y Tyllgoed, Radur a Phentre-poeth yn y gogledd-orllewin

6. Sicrhau cyllid a phenodi/cynnal swydd Swyddog Hybu Addysg Gymraeg (ar draws Rhanbarth De-ddwyrain Cymru) ar y cyd â Chaerdydd Ddwyieithog fel rhan o'u

[6] Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 Thema Un, Amcan 8
[7] Cysylltiadau â Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-2027 ar draws pob thema. Mae enghreifftiau'n cynnwys: Cymraeg i blant | LLYW. CYMRU, I Rieni - Meithrin, Adre | Hafan (cymraeg4parents.cymru)
[8] Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-2027 Thema Un, Amcan 4

Strategaeth 2022-2027[9] i gefnogi ymchwil a hyrwyddo addysg Gymraeg a chyfleoedd cymdeithasol ehangach

Dros y 10 mlynedd nesaf byddwn yn:

7. Datblygu rhagor o opsiynau gofal plant cofleidiol Cymraeg er mwyn cefnogi rhieni i fanteisio ar y cynnig 30 awr ar y cyd â'n partneriaid gan gynnwys Mudiad Meithrin drwy:

    - Archwilio dichonoldeb adeiladu gofod a chyfleusterau ar gyfer darparu gofal plant Cymraeg (megis darpariaeth Cylch Meithrin) i'w gynnwys ym mhob ysgol gynradd Gymraeg newydd.

    - Archwilio cyfleoedd i adeiladu gofod a chyfleusterau ar gyfer darparu gofal plant Cymraeg (megis darpariaeth Cylch Meithrin) i'w cynnwys mewn ysgolion cynradd Cymraeg sydd eisoes yn bodoli gan ddefnyddio Grantiau Cyfalaf Addysg Gymraeg.

8. Gweithio gyda darparwyr gofal plant a Rhaglen Dechrau'n Deg i ysgogi'r galw i gynyddu nifer y lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg a gaiff eu llenwi

9. Sicrhau bod cydweithwyr iechyd a gwasanaethau cyffredinol eraill yn ymwybodol o'r CSCA ac yn mynd ati i hyrwyddo negeseuon cyson ynghylch manteision bod yn ddwyieithog ac yn gallu chwalu mythau a phryderon i gefnogi penderfyniadau rhieni ynghylch addysg eu plentyn

10. Cynyddu nifer y lleoedd addysg feithrin Gymraeg sy'n cyd-fynd â'r ddarpariaeth gynradd er mwyn sicrhau bod gennym gapasiti a dosbarthiad priodol o leoedd ledled y ddinas. I'w gyflawni drwy

    a. sefydlu dosbarthiadau meithrin sydd ynghlwm wrth bob ysgol/ffrwd cyfrwng Cymraeg newydd a ddatblygir i wasanaethu cymunedau CDLl newydd a
    b. darparu lleoedd ychwanegol mewn ysgolion cynradd estynedig a/neu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg newydd a ddatblygir drwy Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Mae'r prif bartneriaid sy'n gyfrifol am weithredu'r camau uchod yn cynnwys:

- Menter Caerdydd
- Ymwelwyr Iechyd a Meddygfeydd y GIG
- Gwasanaethau Plant

[9] Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-2027 Thema Un, Amcan 7

**Deilliant 2 - Mwy o blant dosbarth derbyn/plant pump oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.**

Yng nghyfnod y CSCA blaenorol (2017-2020) mae Cyngor Caerdydd a phartneriaid wedi:

- Cynnal adolygiad dalgylch a gweithredu'r newidiadau cysylltiedig o fis Medi 2021 i gefnogi twf a chynaliadwyedd y Sector Cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd yn y dyfodol.
- Datblygu ysgol ffrwd ddeuol newydd i wasanaethu datblygiadau tai newydd yng ngogledd-orllewin y Ddinas. Bydd hyn yn cynnwys un ffrwd Gymraeg a ffrwd ddwy iaith lle dysgir y Gymraeg a'r Saesneg hyd at 50:50
- Sicrhau a manteisio i'r eithaf ar fuddsoddiad cyfalaf mewn amrywiaeth o ysgolion cynradd Cymraeg er mwyn sicrhau cyfleusterau o ansawdd uchel i gadarnhau atebion ehangu dros dro.

Ar hyn o bryd mae 18% o blant oed Derbyn yng Nghaerdydd yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg[10]. Mae hyn yn arwydd bod twf o fewn y sector cynradd Cymraeg ar daflwybr cadarnhaol[11].

Bu twf cyfartalog o tua 0.25% y flwyddyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf yng nghanran y plant sy'n mynd i Ddosbarthiadau Derbyn Cymraeg. Mae'r tabl isod yn dangos, er bod cynnydd wedi bod, nad yw wedi bod yn gyson.

| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymraeg | 695 | 747 | 710 | 706 | 683 | 749 |
| %Cyfrwng Cymraeg | 15.9% | 17.2% | 17.2% | 17.0% | 16.5% | 18.0% |

Bydd sicrhau twf cynaliadwy lleoedd cyfrwng Cymraeg a sicrhau cynnydd yn y galw yng nghyd-destun gostyngiad mewn cyfraddau geni yn gofyn am gynllunio manwl ar sail gwybodaeth. Rydym yn cydnabod bod mwy o ddisgyblion yn cyrchu eu haddysg statudol drwy gyfrwng y Gymraeg yn dybiaeth allweddol nid yn unig i'r CSCA ond i'r strategaeth Cymraeg 2050 genedlaethol.

Bydd y camau a nodir yn y deilliant hwn yn gweithio tuag at y cynnydd a ddymunir yn nifer y disgyblion sy'n mynd i Ddosbarth Derbyn mewn ysgolion Cymraeg. Rydym yn cydnabod bod Caerdydd yn ddinas sy'n tyfu ac er ein bod yn rhagweithiol yn ein gweledigaeth a'n cynllunio, rhaid i ni hefyd ymateb i anghenion ein cymuned wrth ddatblygu cynnig ysgolion sy'n gadarn fel y gall wrthsefyll yr amrywiadau yn y boblogaeth sy'n digwydd yn naturiol.

[10] Mae rhestr lawn o ysgolion Caerdydd gan gynnwys y rhai Cymraeg, eu lleoliad a'u niferoedd disgyblion ar draws y ddinas i'w gweld ar wefan y Cyngor Ysgolion Caerdydd

[11] Ceir dirnadaethau manylach ynglŷn â'r taflwybr ar dudalen 16-27 y Taflwybr, Atodiad 1

Mae ein targedau ar gyfer y deng mlynedd nesaf fel y nodir yn y tabl isod:

| Niferoedd a % y plant 5 oed sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| 725-765 | 19.0-19.8% | 747-792 | 19.8-21% | 785-846 | 20.5-22.1% | 809-885 | 21.3-23.3% | 833-924 | 22.0-24.4% |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| 860-965 | 22.8-25.6% | 889-1010 | 23.5-26.7% | 918-1054 | 24.3-27.9% | 946-1095 | 25-29% | 975-1141 | 25.8-30.2% |

Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn a thyfu canran y plant oedran Derbyn a addysgir yn Gymraeg o 18% i 27% erbyn 2031, yn y 5 mlynedd cyntaf byddwn yn:

1. Cynnal ymchwil gan gynnwys arolg rhieni cyffredinol a grwpiau ffocws wedi eu targedu mewn rhannau penodol o'r ddinas lle mae'r nifer sy'n manteisio ar addysg Gymraeg yn isel a/neu o fewn grwpiau/cymunedau penodol heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a PYADd (FSM) i ddeall y rhesymau dros hyn ynghyd â gweithredu ymgyrchoedd hyrwyddo micro pwrpasol fel y bo'n briodol.

2. Gwneud addysg Gymraeg yn brif opsiwn a awgrymir i deuluoedd sy'n chwilio am le addysg yng Nghaerdydd gan ein gwasanaeth derbyn ac yn llenyddiaeth ein canllawiau derbyn
    a. Pob cam gweithredu ar gyfer mynd i'r ysgol gynradd yn gyson â Deilliant 1 uchod.
    b. Gweithio gyda phartneriaid cenedlaethol i fynd i'r afael â phroblemau systemau i addasu trefn ysgolion ar ddechrau'r daith addysg statudol er mwyn codi gwelededd ysgolion Cymraeg wrth chwilio am ddarpariaeth addysg.

3. Datblygu a gweithredu hyrwyddo wedi'i dargedu ar y cyd â Chaerdydd Ddwyieithog a gynlluniwyd i ysgogi awydd a chynyddu'r nifer sy'n manteisio ar leoedd Cymraeg mewn ardaloedd lle mae'r galw yn isel.

4. Mynd ati i hyrwyddo'n weithredol y cyfle i drosglwyddo i addysg Gymraeg drwy fanteisio ar y ddarpariaeth drochi gynradd Gymraeg, a hynny i bob ymholiad newydd ar drosglwyddo yn ystod y flwyddyn ar gyfer derbyn i ysgolion Caerdydd.

5. Gwella ystod a'r hyrwyddo ar weithgareddau allgyrsiol a chyfleoedd cymdeithasol eraill o fewn a thu allan i'r ysgol ar y cyd â phartneriaid Caerdydd ddwyieithog/Fforwm Addysg Gymraeg gan gynnwys Menter Caerdydd, yr Urdd, cymuned ein hysgolion, busnesau lleol a gwirfoddolwyr/cyn-ddisgyblion Cymraeg eu hiaith.

6. Ceisio cynnal capasiti ledled y ddinas yn y sector Cymraeg cynradd ar 10% uwchlaw’r nifer a ragamcenir ar oed Derbyn i gefnogi twf a chaniatáu derbyn yn ystod y flwyddyn a hyblygrwydd ar gyfer pontio.
7. Darparu o leiaf 4DM o gapasiti cyfrwng Cymraeg newydd[12] ar lefel gynradd (gyda meithrinfa) erbyn 2025-2026 drwy fwrw ymlaen â chynigion i gynyddu'r ddarpariaeth gynradd Gymraeg sy'n gwasanaethu:
    - Trelái a Chaerau yn ne-orllewin y ddinas;
    - Trowbridge a Llaneirwg yn nwyrain y ddinas;
    - Llwynbedw, Gabalfa, y Mynydd Bychan a Phlasnewydd yn ardal ganolog y ddinas;
    - a'r Tyllgoed, Radur a Phentre-poeth yn y gogledd-orllewin

8. Datblygu a gweithredu'r model iaith ddeuol lle dysgir y Gymraeg a'r Saesneg hyd at 50:50 sydd i ddechrau yn yr ysgol Gymraeg a deuol newydd ar gyfer Plasdŵr[13] drwy barhau â'r gwaith gydag arweinwyr ysgol cryf sy'n darparu addysg yng Nghaerdydd, y consortiwm ac arweinyddiaeth yr ysgol newydd ym Mhlasdŵr i greu amgylchedd dysgu lle gall pob plentyn ffynnu mewn dwy iaith.

Dros y 10 mlynedd nesaf byddwn yn:

9. Ymgymryd â gwaith monitro ac ymchwil â ffocws ar y model iaith ddeuol i nodi arfer llwyddiannus i lywio'r gwaith o gyflymu twf y model fel y bo'n briodol.

10. Defnyddio'r dystiolaeth o lwyddiant modelau iaith ddeuol (Caerdydd ac eraill) i Rannu arfer gorau ar y model iaith ddeuol a allai fod o fudd i ysgolion eraill ledled y ddinas a chefnogi ysgolion cyfrwng Saesneg presennol i ystyried a ydynt yn barod i symud ar hyd y continwwm dwyieithog i gategori ieithyddol gwahanol gyda mwy o addysgu a dysgu yn cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg.

11. Hyrwyddo modelau ysgol sy'n cynnig mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ynghyd â manteision pob un o ran caffael iaith a'r potensial i elwa ar sgiliau Cymraeg gwell.

12. Sicrhau'r capasiti mwy sydd ei angen i gyflawni cyfanswm o 8DM Cymraeg newydd ar lefel gynradd (gyda meithrinfa) ar draws oes y cynllun er mwyn parhau i dyfu a bodloni dyheadau cymunedau ar draws y ddinas yn gynaliadwy.

Mae'r prif bartneriaid sy'n gyfrifol am weithredu'r camau uchod yn cynnwys:

- Cyngor Caerdydd
- Consortiwm Canolbarth y De
- Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd
- Ysgolion Caerdydd
- Gwasanaethau Plant
- Menter Caerdydd
- Ymwelwyr Iechyd a Meddygfeydd y GIG
- RhAG
- Yr Urdd
- Mudiad Methrin

[12] Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-2027 Thema Un, Amcan 9
[13] Yn gyson â Chategori 2 yn Nogfen Categoreiddio Llywodraeth Cymru

**Deilliant 3: Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cam o'u haddysg statudol i'r llall.**

Yng nghyfnod y CSCA blaenorol (2017-2020) mae Cyngor Caerdydd a phartneriaid wedi:

- Ychwanegu 1DM ar gyfer Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr o flwyddyn academaidd 2020/21 i gynnig mwy o gapasiti i ateb y galw a ragamcennir am leoedd Cymraeg mewn ysgolion uwchradd.
- Cynhaliwyd adolygiad dalgylch gyda newidiadau cysylltiedig a weithredwyd o flwyddyn academaidd 2021/22 i wella'r cydbwysedd rhwng nifer y plant a nifer y lleoedd sy'n gwasanaethu pob ardal yng Nghaerdydd.
- Tyfu'r ddarpariaeth Trochi Cymraeg i ddarparu ar gyfer myfyrwyr oedran uwchradd a chynyddu nifer y bobl ifanc sy'n gallu trosglwyddo'n llwyddiannus o addysg gynradd Saesneg i addysg uwchradd Gymraeg.

Mae data CYBLD yn dangos nad yw'n ymddangos bod trosglwyddo dysgwyr rhwng cyfnodau allweddol yn broblem sylweddol. Fodd bynnag mae pandemig COVID-19 a'r angen am ddysgu o bell wedi cyflwyno heriau i ysgolion a theuluoedd. Rydym yn ymwybodol bod hyn wedi cael effaith tymor byr gyda nifer fach o deuluoedd yn dewis tynnu eu plant allan o addysg Gymraeg. Bydd yn rhaid aros i weld os oes goblygiadau hirdymor i'r tarfu, o ran trosglwyddiadau diweddarach ar ddiwedd blwyddyn neu ar adegau pontio.

Bu cynnydd bychan yn nifer y trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn allan o ysgolion Cymraeg yn ystod y pandemig. Gwelwyd hefyd nifer tebyg o ddisgyblion yn symud allan o Gaerdydd ac yn symud i ddarpariaeth amgen (gan gynnwys addysg ddewisol yn y cartref, ysgol arbennig, UCD ac addysg breifat).

Dyma'r sefyllfa yn gysylltiedig â phlant sy'n trosglwyddo allan o ysgolion Cymraeg yn ystod y flwyddyn dros y tair blynedd diwethaf:

I le’r aeth disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd Cymraeg a adawodd yn ystod y flwyddyn

| | **2018-19** | | **2019-20** | | **2020-21** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Symud o Gaerdydd | 64 | 37% | 66 | 36% | 61 | 30% |
| Trosglwyddo i ysgol Gymraeg arall yng Nghaerdydd | 55 | 32% | 48 | 27% | 35 | 17% |
| Trosglwyddo i ysgol Saesneg yng Nghaerdydd | 42 | 25% | 59 | 33% | 93 | 47% |
| Arall* | 11 | 6% | 8 | 4% | 11 | 6% |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **172** | **100%** | **181** | **100%** | **200** | **100%** |

*Yn cynnwys Addysg Ddewisol yn y Cartref, Addysg Heblaw yn yr Ysgol, ysgol arbennig neu UCD, ysgol breifat

Mae'n werth nodi, o ddisgyblion a drosglwyddodd i ysgol awdurdod lleol prif ffrwd arall yng Nghaerdydd, fod newid sylweddol o ran y rhaniad rhwng y rhai yn aros yn y sector Cymraeg a'r rhai yn trosglwyddo i addysg Saesneg. Byddwn yn parhau i fonitro hyn yn y blynyddoedd i ddod i asesu a yw hwn yn ddigwyddiad ynysig sy'n deillio o heriau'r pandemig neu batrwm cylchol.

Er bod nifer o ddisgyblion wedi trosglwyddo allan o addysg Gymraeg, mae hyn wedi ei liniaru i raddau gan nifer o ddisgyblion sy'n dewis trosglwyddo i'r sector Cymraeg o'r sector Saesneg. Mae gan Gaerdydd ddarpariaeth Trochi Cymraeg uchel ei barch a hynod effeithiol. Gwelwyd niferoedd cynyddol o ddisgyblion yn trosglwyddo'n llwyddiannus o ddarpariaeth Saesneg i ymuno â chyfoedion newydd mewn darpariaeth Gymraeg.

Er mwyn cyflawni’r deilliant hwn a chynyddu nifer y plant sy’n parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cam o'u haddysg statudol i'r llall, yn ystod y 5 mlynedd cyntaf byddwn yn:

1. Monitro ceisiadau ar gyfer trosglwyddo o ysgolion cyfrwng Cymraeg i'r sector Saesneg yn y ddinas a chynnal ymchwil pellach lle mae'r rhai sy'n optio allan o'r sector hwn yn dod o faes/grŵp penodol i sicrhau gwell dealltwriaeth o bryderon a sicrhau bod sicrwydd a chymorth priodol yn cael eu darparu gyda'r bwriad o annog ailystyriaeth i aros.

2. Cadw’r lefelau uchel o ddilyniant o ysgolion cynradd Cymraeg i rai uwchradd Cymraeg o dan adolygiaeth gyson.

3. Gweithio mewn partneriaeth agos ag ysgolion i wella'r wybodaeth sydd ar gael ar wefannau ysgolion unigol i esbonio'r gwerth a osodir ar ddatblygu sgiliau ieithyddol Cymraeg, manteision bod yn ddwyieithog a'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y caiff plant a phobl ifanc eu cefnogi yn eu dysgu gan gynnwys:

    - Cynyddu’r cyfeirio at gyfleoedd dysgu Cymraeg a chymdeithasu y tu allan i'r ysgol er mwyn normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg y tu allan i amgylchedd dysgu ffurfiol yr ysgol.

    - Cefnogi cydweithio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd i gynhyrchu adnoddau sy'n hyrwyddo dilyniant ieithyddol i rieni/gofalwyr ac sy’n rhoi sicrwydd er mwyn cefnogi cadw disgyblion.

    - Sicrhau bod y daith addysgol gyfan o'r feithrinfa i ôl-16 yn glir i deuluoedd er mwyn datblygu hyder pellach wrth ddewis addysg Gymraeg gan gynnwys tynnu sylw at y cymorth sydd ar gael i blentyn ddatblygu a magu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol.

4. Darparu cyngor, dysgu proffesiynol ac adnoddau i ysgolion Saesneg i gynyddu canran y cwricwlwm a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg a gweithredu'r Gymraeg Ar Draws y Cwricwlwm gan gynyddu faint o ddysgu a gynigir a mwy o gyfleoedd ai ddefnyddio’r Gymraeg.

5. Dathlu a rhannu arfer da ledled Caerdydd a rhanbarth ehangach y de-ddwyrain mewn amrywiaeth o ffyrdd e.e., gweminarau, podlediadau, blogiau a theithiau cerdded dysgu.

6. Nodi a darparu cymorth â ffocws i ysgolion lle gallai cyfraddau pontio fod yn destun pryder a chyhoeddi adnoddau i gynyddu hyder disgyblion, ynghyd â chefnogi a rhoi sicrwydd i rieni/gofalwyr ynghylch pontio rhwng cyfnodau i annog cyfraddau cadw disgyblion.

7. Ceisio defnyddio o leiaf un o safleoedd ysgolion uwchradd y CDLl i gynyddu nifer y lleoedd uwchradd Cymraeg yng Nghaerdydd[14].

8. Cyflwyno ceisiadau (cyfalaf a refeniw) i sicrhau cyllid i gefnogi ehangu'r ddarpariaeth drochi Gymraeg (ar lefelau cynradd ac uwchradd) i gynyddu a chynnal nifer y lleoedd sydd ar gael i'r ddau:

    - Galluogi strategaeth hyrwyddo ragweithiol er mwyn annog ystyriaeth i roi’r cyfle i drosglwyddo o ysgolion Saesneg a/neu ysgolion model deuol i addysg uwchradd Gymraeg wrth drosglwyddo i'r sector uwchradd.
    - Cefnogi caffael iaith dwys yn ôl yr angen er mwyn gwella hyder dysgwyr a rhoi mwy o sicrwydd i rieni sy'n dewis addysg Gymraeg y bydd eu plentyn yn cael y cyfle i gyrchu cymorth os bydd ei angen.

9. Gweithio gydag ysgolion cynradd Cymraeg i sicrhau cynnydd yn y niferoedd sy’n hyfforddi’n athrawon ac mewn ffeiriau gyrfaoedd i gefnogi nifer uwch o'n pobl ifanc i ystyried manteision ac amrywiaeth y cyfleoedd sydd i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

10. Cynyddu darpariaeth hyfforddiant Cymraeg i rieni sy'n anfon eu plant i ysgolion Cymraeg yn unol â Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog..

Dros y 10 mlynedd nesaf byddwn yn:

11. Bwr wymlaen â chynlluniau i gynyddu capasiti parhaol y ddarpariaeth uwchradd Gymraeg er mwyn sefydlu capasiti ledled y ddinas yn y sector sydd 10% uwchlaw’r niferoedd a ragamcenir.

12. Parhau i ddatblygu ar y cydweithrediad presennol gyda’r sector uwchradd Cymraeg i ddarparu dysgu proffesiynol pwnc-benodol, yn enwedig mewn meysydd lle ceir prinder ymarferwyr drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r prif bartneriaid sy'n gyfrifol am weithredu'r camau uchod yn cynnwys:

---

[14] Uchelgais a rennir a gaiff ei adlewyrchu yn Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-2027 Thema Un, Amcan 9

- Cyngor Caerdydd
- Consortiwm Canolbarth y De
- Ysgolion Caerdydd
- Gwasanaethau Plant
- Menter Caerdydd
- Coleg Caerdydd a’r Fro (CCF)
- RhAG
- Meddygfeydd y GIG
- Yr Urdd
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Prifysgol Caerdydd
- Cyngor y Gweithlu Addysg

**Deilliant 4 - Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau a asesir yn y Gymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg**

Yng nghyfnod y CSCA blaenorol (2017-2020) mae Cyngor Caerdydd a phartneriaid wedi:

- Cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n astudio'n ddwyieithog a thrwy gyfrwng y Gymraeg yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro
- Wedi llwyddo i gefnogi myfyrwyr i fanteisio ar ystod eang o opsiynau a chyrsiau TGAU ac ôl-16 drwy gydweithio agos rhwng y tair ysgol uwchradd Gymraeg sy'n galluogi myfyrwyr i barhau â'u hastudiaethau yn y Gymraeg.

Ar hyn o bryd mae dysgwyr ym mhob un o dair ysgol uwchradd gymunedol Gymraeg Caerdydd yn astudio pob pwnc (heblaw am Saesneg Iaith a Llenyddiaeth) drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel TGAU ac ar gyfer Safon Uwch neu debyg. Mae'r cynnig academaidd yn cynnwys amrywiaeth o opsiynau pwnc i ddysgwyr eu dewis gyda pheth gweithio traws-ysgol yn i wella'r ystod o bynciau 14-19 sydd ar gael. Mae deilliannau dysgwyr ar draws y tair ysgol yn gryf. Mae nifer y disgyblion sy'n cael eu derbyn ym Mlwyddyn 7 yn cynyddu'n gyson â'r carfannau mwy sy'n symud drwy'r system.

Astudir Cymraeg fel ail iaith fel pwnc gorfodol drwy holl ysgolion uwchradd cymunedol Saesneg Caerdydd gydag ymwybyddiaeth ehangach o'r cyfle i drosglwyddo o’r sector Saesneg i’r sector Gymraeg ar lefel uwchradd drwy fynychu darpariaeth drochi Cymraeg CA3/4.

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro hefyd wedi nodi cynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n astudio'n ddwyieithog a thrwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys 46 o bobl ifanc sy'n astudio gwallt a harddwch, a 24 o ddysgwyr sy'n astudio cymwysterau BTEC lefel 3 dwyieithog. Nododd y coleg newid mawr yn agweddau dysgwyr tuag at y Gymraeg a’u gallu i weld y modd y bydd yr iaith yn eu helpu yn y dyfodol. Y bwriad yw y bydd y ddau gwrs yn hyrwyddo’u hunain drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig ar gyfer Medi 2021.

Yn amlwg, gan gysylltu â'r deilliant blaenorol, er mwyn sicrhau mwy o ddisgyblion yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg, mae'n dal yn hanfodol ceisio dal gafael ar ddysgwyr sydd wedi dechrau yn y sector cynradd Cymraeg wrth bontio i ysgol uwchradd.

Mae darparu dysgu ac addysgu ar-lein wedi bod yn hanfodol yn ystod y pandemig. Er bod hyn wedi deillio o angen, mae uwchsgilio'r gweithlu a’r cymhwysedd technegol yn

rhoi'r cyfle posibl i archwilio a darparu ystod o ddarpariaeth a chofleidio technoleg fel mecanwaith ar gyfer ehangu'r cwricwlwm Cymraeg sydd ar gael ar draws yr awdurdod lleol. Mae darpariaeth eisoes yn cael ei rhannu ar draws ysgolion.

I gyflawni’r deilliant hwn a sicrhau bod mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau a asesir yn y Gymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn y 5 mlynedd cyntaf byddwn yn:

1. Nodi a manteisio i'r eithaf ar adnoddau pellach i ehangu a bywiogi'r enghreifftiau o'r ystod o yrfaoedd lle defnyddir y Gymraeg gan ysgogi mwy o bobl ifanc i fanteisio arnynt ymhellach i'w gyrfa ddysgu ac annog defnydd ehangach o'r Gymraeg y tu hwnt i'r cwricwlwm a chymwysterau ar y cyd â Chaerdydd Ddwyieithog[15].
2. Ymgymryd ag ymchwil â ffocws gyda phobl ifanc ar y cyd ag ysgolion, colegau a phartneriaid i gael gwell dealltwriaeth o'u rhesymau dros ddewis eu hopsiynau a beth allai eu hannog i ddewis Cymraeg Safon Uwch.
3. Gweithio gyda phartneriaid ar draws y Fforwm Addysg Gymraeg, Caerdydd Ddwyieithog ac Addewid Caerdydd i amlygu manteision y Gymraeg gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau, profiad gwaith a/neu gyfleoedd gwirfoddoli mewn sefydliadau a gweithleoedd Cymraeg eu hiaith sy'n manteisio i'r eithaf ar botensial siaradwyr dwyieithog.
4. Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo manteision y Gymraeg a bod yn ddwyieithog gyda rhieni / gofalwyr ynghyd â sut y gallant gefnogi dilyniant disgyblion hyd yn oed os nad y Gymraeg yw'r iaith lafar gartref.
5. Gweithio gyda darparwyr allanol a LlC ar unrhyw fentrau cenedlaethol i hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc Safon Uwch.
6. Sicrhau bod 100% o ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn parhau i gymryd pob cymhwyster (ac eithrio llenyddiaeth ac iaith Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4, gan gynnwys TGAU a chymwysterau tebyg.
7. Parhau i weithio gyda chydweithwyr mewn ysgolion Saesneg ledled Caerdydd i sicrhau bod pob disgybl yn gallu ymgymryd â TGAU Cymraeg ail iaith neu unedau Llwybr Lefel Mynediad[16] ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4.
8. Gweithio gyda phartneriaid i lobïo Cymwysterau Cymru er mwyn sicrhau bod cymwysterau TGAU newydd Cymru i gefnogi'r cwricwlwm arfaethedig yn cynnig testunau sy'n fwy cyfoes ac yn fwy perthnasol i ddysgwyr
9. Cefnogi ysgolion i gynllunio'n bwrpasol i gynyddu awydd, gwydnwch a hyder dysgwyr ysgolion uwchradd i ddefnyddio a thyfu'r sgiliau Cymraeg y llwyddir i’w caffael yn y sector cynradd, a gweithio gyda phartneriaid allanol i hyrwyddo hyn.

[15] Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog Thema 3, Amcan 5
[16] Unedau Llwybr Lefel Mynediad yn cynnwys 6365, 6366, 6367, 6368 a 6369

10. Gweithio gyda Chaerdydd Ddwyieithog a phartneriaid i gefnogi cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg bellach ac uwch drwy gyfrwng y Gymraeg[17].

Dros y 10 mlynedd nesaf byddwn yn:

11. Adolygu'r nifer sy'n manteisio ar ac yn cwblhau Safon Uwch Cymraeg ers dechrau'r cynllun a cheisio adborth pobl ifanc i ganfod pa ffactorau a arweiniodd at eu penderfyniad i barhau â'u hastudiaethau yn y Gymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg a'u barn am effaith y wybodaeth a'r adnoddau a ddatblygwyd ac a rannwyd gyda hwy.
12. Ymgysylltu â byrddau arholi i gynrychioli'r awydd sydd am ystod ehangach o gyrsiau a chymwysterau (yn enwedig o ran cyfleoedd dysgu galwedigaethol) a gyflwynir trwy gyfrwng y Gymraeg i sicrhau lefel gydradd â'r ystod sydd ar gael yn Saesneg.
13. Archwilio’r cwmpas i wneud defnydd mwy strategol o'r opsiynau e-ddysgu Cymraeg presennol ochr yn ochr â ph'un a oes potensial i ddatblygu modiwlau dysgu ar-lein Caerdydd er mwyn darparu ystod ehangach o bynciau ac ehangu'r cynnig o gymwysterau a phrofiadau dysgu posibl ar draws sector addysg Gymraeg Caerdydd ynghyd â chefnogi datblygu sgiliau mewn dysgu digidol yng Nghyfnod Allweddol 4 ac yn gynharach.

Mae'r prif bartneriaid sy'n gyfrifol am weithredu'r camau uchod yn cynnwys:

- Cyngor Caerdydd
- Consortiwm Canolbarth y De
- Ysgolion Caerdydd
- Coleg Caerdydd a’r Fro (CCF)
- Prifysgol Caerdydd
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Byrddau Arholi yn cynnwys CBAC
- Cyngor y Gweithlu Addysg

[17] Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog Thema Un, Amcan 12

**Deilliant 5 - Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol**

Yng nghyfnod y CSCA blaenorol (2017-2020) mae Cyngor Caerdydd a phartneriaid wedi:

- cynnal 'Gyrfa Gymraeg - Ffair Swyddi Cymraeg Caerdydd' dan arweiniad Caerdydd Ddwyieithog i dynnu sylw at opsiynau gyrfa a manteision gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae'r pandemig wedi bod yn gatalydd ar gyfer mwy o gynnwys ar-lein yn Gymraeg, gan gynnwys sianel youtube S4C ar gyfer plant 11-13 oed a Hansh yn gweithio gyda phobl ifanc i greu cynnwys.
- Mae'r cyfleoedd dysgu a chymdeithasu ar-lein wedi cynyddu'n sylweddol drwy gydol y pandemig ac er bod llawer o weithgareddau wyneb yn wyneb wedi ailddechrau, mae'n parhau i ategu'r cynnig hwn gydag amrywiaeth o gyfleoedd dysgu ar-lein

Mae Caerdydd yn cydnabod gwerth i bobl ifanc ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg mewn amrywiaeth o gyd-destunau i wella eu caffael ar iaith a meithrin eu hyder wrth siarad yr iaith wrth gyfathrebu bob dydd er mwyn bodloni dyheadau Cymraeg 2050. Er gwaethaf y tarfu yn sgil y pandemig mae partneriaid Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd wedi parhau i ddarparu gweithgareddau cyfoethogi drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgolion, fel gweithgareddau allgyrsiol gyda llawer yn symud ar-lein lle bo hynny'n bosibl yn ystod y pandemig.

Yng Nghaerdydd, mae 17 o ysgolion cynradd Cymraeg wedi ennill Gwobr Efydd y Siarter Iaith gydag 8 yn symud ymlaen i ennill y wobr arian erbyn 2021. Mewn ysgolion uwchradd, mae 2 ysgol wedi ennill y wobr efydd.

Mae'r cynllun Cymraeg Campus wedi'i gyflwyno ar gyfer ysgolion lle mae iaith yr addysgu yn Saesneg ac yn 2021, roedd 15 o ysgolion cynradd wedi cael efydd gyda 2 ysgol uwchradd yn treialu cynllun uwchradd Cymraeg Campus.

Anogir dysgwyr sy'n mynychu ysgolion Cymraeg a Saesneg i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol, cymdeithasol a chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn gwella eu hyder a chadw eu rhuglder yn y Gymraeg gan gynnwys ymhlith lefelau uchel arall o gyfranogiad a chynrychiolaeth yn nigwyddiadau a chyfleoedd cymdeithasol yr Urdd (Eisteddfod yr Urdd, cystadlaethau chwaraeon cenedlaethol, gweithgareddau awyr agored a theithiau preswyl) ynghyd â chynyrchiadau'r celfyddydau perfformio mewn ysgolion.

Mae fforwm partneriaid Caerdydd Ddwyieithog wedi gwneud gwaith i nodi a choladu cyfeirlyfr o brofiad gwaith a chyfleoedd gwirfoddoli sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg. Wrth symud ymlaen, disgwylir i hyn fod o fudd wrth arddangos gwerth a throsglwyddo sgiliau Cymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Y gobaith yw y bydd hyn yn cryfhau'r Gymraeg fel rhan lewyrchus o ddiwylliant Caerdydd ac yn hanfodol i hunaniaeth y Brifddinas.

Dyma'r sefyllfa bresennol sy'n ymwneud â chyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol a'n prif darged ar gyfer y deng mlynedd nesaf:

Sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cefnogi i fwynhau a chadw eu defnydd a'u hyder yn eu sgiliau Cymraeg y tu hwnt i'r ysgol drwy sicrhau amrywiaeth eang o gyfleoedd hygyrch yng Nghaerdydd a fydd yn cyffroi, yn ymgysylltu ac yn annog pobl ifanc gan gyfrannu felly at y dyhead i gofleidio'r iaith fel iaith fyw yn ein prifddinas.

Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn a sicrhau bod dysgwyr yn cael mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol, yn y 5 mlynedd cyntaf byddwn yn:

1. Mynd i'r afael â'r gwaith o fapio'r ddarpariaeth bresennol y tu allan i'r ysgol ar y cyd â darparwyr eraill i nodi bylchau a bod yn sail i drafodaethau sy'n ymwneud â chydweithredu / partneriaethau newydd er mwyn cynyddu / ehangu'r ddarpariaeth i ateb y galw.

2. Ymgymryd â gweithgareddau ymgysylltu â ffocws iddynt gyda phobl ifanc ynghylch pa gyfleoedd dysgu a chymdeithasu Cymraeg yr hoffent eu gweld yn cyd-fynd ag ymrwymiad Dinas sy'n Dda i Blant Caerdydd gan gynnwys sefydlu Fforwm Ieuenctid Caerdydd Ddwyieithog[18]

3. Cynnal ymchwil gyda phobl ifanc ac oedolion sydd wedi cyrraedd lefel o ruglder yn y Gymraeg yn y gorffennol ond sydd wedi colli hyder i'w ddefnyddio er mwyn deall a mynd i'r afael yn well â'r her o gadw iaith y tu hwnt i addysg statudol.

4. Cynnal arolwg gyda busnesau Caerdydd a chyn-fyfyrwyr ysgolion Cymraeg i archwilio'r posibiliadau i gefnogi cyfleoedd pellach ar gyfer cyfleoedd amgen i'r rhai sydd eisoes ar gael er mwyn ehangu'r cwmpas ac ymgysylltu â diddordebau mwy arbenigol.

5. Darparu swyddog consortia dynodedig i bob ysgol i gefnogi'r Siarter Iaith a chynnydd Cymraeg Campus sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo, cefnogi, herio ac achredu holl ysgolion Caerdydd i wneud cynnydd gyda'r Gwobrau Siarter Iaith a Chymraeg Campus.

6. Sicrhau bod yr holl gyfleoedd a gynigir yng Nghaerdydd yn cael eu hyrwyddo'n gynhwysfawr ac yn gydlynol yng Nghaerdydd i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a chynyddu cyfranogiad mewn dysgu a defnyddio'r Gymraeg.

7. Sicrhau cyllid a chynyddu cydweithio rhwng y Gwasanaeth Ieuenctid a sefydliadau partner gan gynnwys Menter Caerdydd a'r Urdd i wella ystod a dosbarthiad y cyfleoedd sydd ar gael ledled Caerdydd i bobl ifanc ar y cyd â Strategaeth Ddwyieithog Caerdydd[19].

---

[18] Strategaeth Ddwyieithog Caerdydd Thema Dau, Amcanion 1,2 ac 8 a Thema Tri, Amcan 2
[19] Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-2027, Thema Tri, Amcanion 2, 3 ac 8

8. Blaenoriaethu darpariaeth, cyfleoedd a mynediad i'r celfyddydau yn y Gymraeg yng Nghaerdydd ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd ar y cyd â Strategaeth Ddwyieithog Caerdydd drwy:

   - Tafwyl
   - Sesiynau darllen ac ysgrifennu creadigol[20].
   - Cynyddu cydweithrediad celfyddydol â blynyddoedd 12 a 13 mewn Ysgolion Uwchradd a gydag Israddedigion yng Ngholegau a Phrifysgolion Caerdydd.[21]

9. Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi'r fenter yn Strategaeth Ddwyieithog Caerdydd i gynyddu gweithgarwch gydag ysgolion Saesneg gan ffurfio clybiau, cynnal gweithdai, ac annog gweithgareddau'n uniongyrchol gyda'r ysgolion drwy gyfrwng y Gymraeg[22]

10. Mae holl ysgolion Caerdydd yn cymryd rhan yn rhaglen achredu Siarter Iaith y Gymraeg (a elwir ar hyn o bryd yn Siarter Iaith a Cymraeg Campus), gyda phob ysgol yn gweithio i gyrraedd y lefel nesaf erbyn 2027).

Erbyn diwedd y cynllun 10 mlynedd byddwn yn:

11. Gwerthuso effaith y Siarter Iaith a Chymraeg Campus i gefnogi'r gwaith o fireinio'r cynlluniau dros amser, yn enwedig ochr yn ochr â gweithredu'r cwricwlwm newydd.

12. Darparu cymorth i ysgolion yn eu defnydd o’r Gymraeg mewn ysgolion chyfleoedd dysgu Cymraeg, Llythrennedd a Chyfathrebu proffesiynol o ansawdd uchel gan gynnwys cymorth pwrpasol ar gyfer ysgolion/clystyrau unigol a chyfleoedd i gydweithio rhwng ysgolion a phartneriaethau rhwng cymheiriaid fel y bo'n briodol.

13. Hyrwyddo cyfranogiad gweithredol plant mewn partneriaethau traws-ysgol i wella eu mwynhad o ddefnyddio'r Gymraeg gan gefnogi normaleiddio'r iaith ym mhob lleoliad er mwyn cydlyniant a gwell awydd i ymwneud â'r iaith.

Mae'r prif bartneriaid sy'n gyfrifol am weithredu'r camau uchod yn cynnwys:

- Cyngor Caerdydd, gan gynnwys Caerdydd Ddwyieithog ac Addewid Caerdydd
- Yr Urdd
- Menter Caerdydd
- CCD
- S4C
- Ysgolion
- Coleg Caerdydd a’r Fro (CCF)
- Partneriaid y Brifysgol, y Coleg Cymraeg, Prifysgol Caerdydd a Met Caerdydd

[20] Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-2027 Thema Dau, Amcan 8, Thema Tri Amcan 3
[21] Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-2027 Thema Tri, Amcan 4
[22] Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-2027 Thema Dau, Amcan 3

**Deilliant 6 - Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg Gymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**

Yng nghyfnod y CSCA blaenorol (2017-2020) mae Cyngor Caerdydd a phartneriaid wedi:

- Sefydlu canolfan ddysgu newydd ar gyfer hyd at 20 o ddisgyblion yn Ysgol Pwll Coch
- Ymestyn y nifer dynodedig ar gyfer y ganolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Glantaf i 30, a chymerwyd camau i wella'r cyfleusterau
- Sefydlu dosbarth Llesiant cynradd yn Ysgol Pen-y-Groes, gan gynnig lleoedd cofrestredig dros dro i hyd at 8 disgybl
- Gweithio gyda'r tair ysgol uwchradd i ddatblygu 'canolfan lesiant rithwir' sy'n gweithredu ar draws y tair ysgol, ar gyfer hyd at 18 o ddisgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd neu o ymddieithrio

Mae'r sefyllfa bresennol o ran darparu addysg Gymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yng Nghaerdydd a'n targedau ar gyfer y deng mlynedd nesaf fel a ganlyn:

Mae nifer yr achosion o ADY yn y sector Cymraeg yn parhau i fod yn is nag ar gyfer ysgolion Caerdydd yn gyffredinol:

| Ebrill 2021 | Pob ysgol | % y boblogaeth ddisgyblion | Ysgolion Cymraeg | % y boblogaeth ddisgyblion. |
|---|---|---|---|---|
| **Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy** | 3045 | 5.54 | 320 | 3.72 |
| **Â datganiad** | 1360 | 2.48 | 116 | 1.35 |

Fodd bynnag, bu cynnydd yn nifer y disgyblion ag ADY sylweddol a chymhleth sy'n dewis addysg Gymraeg, fel y dengys y twf yn y galw am ddarpariaeth arbenigol:

- Agorodd y ganolfan ddysgu yn Ysgol Pwll Coch yn 2018-19 gyda 2 ddisgybl: 9 disgybl yn 2021.
- Roedd y ganolfan ddysgu yn Ysgol Glantaf yn darparu ar gyfer 11 o ddisgyblion yn 2016: 24 o ddisgyblion yn 2021

Cynhaliwyd arolwg o'r angen presennol gan y Tîm Cymorth Awtistiaeth yn 2020-21 a nodwyd 21 o ddisgyblion cynradd sy'n debygol o fod angen lleoliad mewn canolfan awtistiaeth naill ai wrth bontio i'r ysgol uwchradd neu ar ryw adeg yn ystod CA2.

I gyflawni'r canlyniad hwn a sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol o ansawdd uchel ar gyfer pob disgybl mewn addysg cyfrwng Cymraeg sydd wedi neu a allai ddatblygu anghenion dysgu ychwanegol

Yn y 5 mlynedd cyntaf byddwn yn:

1. Datblygu ymhellach yr ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol o ran ADY i feithrin gallu'r gweithlu cyfrwng Cymraeg i nodi a diwallu ystod o anghenion dysgu ychwanegol.

2. Parhau i gefnogi amrywiaeth o ddulliau o ymyrraeth gynnar a chefnogaeth ar draws pob ysgol Gymraeg, er mwyn sicrhau cyfle ieithyddol cyfartal.

3. Darparu gwybodaeth a chyngor i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd, gan sicrhau bod gwefannau ysgolion a'r cyngor yn cynnwys gwybodaeth ynghylch sut mae anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu nodi a'u diwallu yn ein hysgolion Cymraeg, gan gynnwys gwybodaeth am ddarpariaeth arbenigol[23]

4. Gofyn yn rheolaidd am farn dysgwyr a'u teuluoedd am effeithiolrwydd ac effaith darpariaeth ddysgu ychwanegol er mwyn 'adolygu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol'[24].

5. Monitro ceisiadau am drosglwyddo o ysgolion Cymraeg i'r sector Saesneg yn y ddinas a chynnal ymchwil bellach lle mae gan y rhai sy'n optio allan o'r sector hwn CDUau ADY ar waith i sicrhau gwell dealltwriaeth o bryderon a sicrhau bod sicrwydd a chymorth priodol yn cael eu darparu gyda'r bwriad o'u gweld yn ailystyried ac aros.

6. Adolygu effaith y Dosbarth Llesiant cynradd Cymraeg a'r 'Ganolfan Adnoddau Arbenigol rithwir' uwchradd ar gyfer disgyblion ag anghenion iechyd a lles emosiynol ynghyd ag ystyried y dysgu a'r goblygiadau ar gyfer datblygu darpariaeth arbenigol yn y sector yn y dyfodol.

7. Adolygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg 'Cyfnod 3 a Chyfnod 4' fel rhan o adolygiad ledled y ddinas, er mwyn penderfynu ar y ffordd orau o wella ymhellach ar atal ac ymyrraeth gynnar ADY.

8. Datblygu a chyflawni nifer uwch o leoedd arbenigol uwchradd i'w darparu mewn CAA sydd wedi'i leoli ym mhob un o'r ysgolion uwchradd Cymraeg gydag anghenion arbenigol gwahanol ym mhob canolfan i gyflawni lefel o ddarpariaeth arbenigol sy'n gydradd â sectorau eraill ac sy'n ymateb yn briodol i anghenion unigol.

9. Datblygu a darparu nifer cynyddol o leoedd arbenigol cynradd i'w darparu mewn canolfannau adnoddau arbenigol mewn o leiaf tair ysgol gynradd sy'n bwydo'r ysgolion uwchradd perthnasol.

Dros y 10 mlynedd nesaf byddwn yn:

10. Darparu CAAau ADY pellach ar safleoedd cynradd wrth i ardaloedd CDLl preswyl mawr ddatblygu

[23] Fel yr amlinellir yng Nghod ADY 2020
[24] YN unol â Chod ADY 2020

11. Gweithio gyda phartneriaid ym maes Iechyd i wella mynediad at gymorth therapi a chyngor drwy gyfrwng y Gymraeg

12. Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i wella mynediad at asesiadau ac adnoddau Cymraeg

Mae'r prif bartneriaid sy'n gyfrifol am weithredu'r camau uchod yn cynnwys:

- Cyngor Caerdydd
- Consortiwm Canolbarth y De
- Ysgolion Caerdydd
- Gwasanaethau'r GIG
- Gwasanaethau Plant

**Deilliant 7 - Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg**

Yng nghyfnod y CSCA blaenorol (2017-2020) mae Cyngor Caerdydd a phartneriaid wedi:

- Galluogi staff yr ysgol i gyrchu datblygiad proffesiynol yn y Gymraeg drwy amrywiaeth o gyfleoedd, o gyrsiau i ddechreuwyr hyd at y Rhaglen Sabothol Cymraeg dwys

- Cefnogwyd nifer cynyddol o staff yng Nghaerdydd i'w derbyn i'r Rhaglen Darpar Benaethiaid yn 2020/21 sy'n arwain at asesiad NPHQ.

- Mae ehangu aelodaeth y Fforwm Addysg Gymraeg i gynnwys Prifysgol Metropolitan Caerdydd i elwa o'u mewnbwn ynghylch Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghaerdydd wedi cael ei werthfawrogi'n fawr o ran rhoi mwy o ddealltwriaeth ynghylch y potensial a'r rhwystrau i gynyddu'r gweithlu.

Dim ond ar ddata a adroddwyd gan yr ysgol y gellir seilio'r targedau presennol sy'n adlewyrchu hunanasesiad rhuglder gan aelodau unigol o staff sydd wedi'u cynnwys yn y setiau data 'Addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl Awdurdod Lleol'[25]. Ar sail y data sydd ar gael, byddem yn disgwyl y bydd angen cynyddu'r gweithlu 8% er mwyn cefnogi'r cynnydd mewn lleoedd yn y CSCA hwn. Fodd bynnag, bydd angen adolygu'r targed hwn yn dilyn trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid lleol i sefydlu gwaelodlinau mwy safonol ac yng ngoleuni Cynllun Datblygu'r Gweithlu deng mlynedd Llywodraeth Cymru sydd i'w gyhoeddi yn ddiweddarach yn 2022.

Mae twf sylweddol yn y gweithlu sy'n gallu dysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg yn hollbwysig er mwyn i Gaerdydd lwyddo i sicrhau twf siaradwyr Cymraeg drwy gyfrwng addysg yn ein hysgolion a chyfleoedd dysgu ehangach.

Mae Cyngor Caerdydd yn cydnabod bod recriwtio gweithlu digonol eisoes yn cyflwyno heriau ar draws pob sector addysg. Hyd yma, mae Caerdydd yn bennaf wedi parhau i ddenu staff yn lleol ac o bob cwr o Gymru gyda'r heriau i'w teimlo fwyaf mewn ysgolion uwchradd, yn enwedig mewn pynciau fel mathemateg a gwyddoniaeth. Fodd bynnag, wrth i'r sector ehangu fel rhan o'r ymdrech genedlaethol i gynyddu Addysg Gymraeg a mwy o Gymraeg drwy ysgolion dwy iaith, fe ddaw'r her hon yn fwy ar draws yr ystodau oedran. Mae hyder cenedlaethol o ran adnoddau digonol yn isel ar hyn o bryd.

Darlun rhannol yw sicrhau bod digon o athrawon Cymraeg rhugl o ansawdd uchel i staffio'r nifer cynyddol o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwy iaith. Ar ben hynny, bydd y disgwyliadau uwch i addysgu a dysgu gan ddefnyddio mwy o Gymraeg mewn ysgolion Saesneg hefyd yn golygu bod angen uwchsgilio ar draws llawer o'r gweithlu addysgu a dysgu.

[25] Addysgu / gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl awdurdod lleol (llyw.cymru)

Felly, rydym wedi ymrwymo i weithio'n agos gydag ALlau eraill yng Consortiwm Canolbarth y De (CCD) i gynllunio a chefnogi staff ysgolion ar draws pob sector i wella eu sgiliau Cymraeg ymhellach ynghyd â darparwyr hyfforddiant y gweithlu Addysg Hyfforddiant Gychwynnol a'r gweithlu Gofal Plant cyfrwng Cymraeg i gefnogi cynnydd mewn Athrawon Newydd Gymhwyso, staff cymorth dysgu ac ymarferwyr gofal plant er mwyn helpu i leihau'r prinder gweithlu a ragamcennir yn y dyfodol a sicrhau y gellir gweithredu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg lleol ar y cyd yn effeithiol yn y dyfodol i gyrraedd targed y llywodraeth.

I gyflawni'r deilliant hwn a chynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn y 5 mlynedd cyntaf byddwn yn:

1. Cynnal archwiliad canolog o'r gweithlu i adolygu staffio presennol ynghyd ag ystyried swyddi gwag staff addysgu a staff cymorth yn y presennol ac yn y dyfodol i gefnogi recriwtio a chadw staff sydd â sgiliau Cymraeg gan gynnwys staff addysgu a dysgu sy'n gwbl rhugl. Bydd hyn yn cynnwys:
    - Dadansoddi canlyniad data cyfrifiad gweithlu'r ysgo, data'r Fframwaith Iaith a ffynonellau tystiolaeth ansoddol i gefnogi cynllunio'r gweithlu i lywio'r gwaith o gynllunio rhaglenni dysgu proffesiynol sy'n adlewyrchu anghenion ein gweithlu lleol sy'n benodol i gynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg ym mhob ysgol.
    - Cynnal archwiliad i adolygu ac adlewyrchu newidiadau mewn math o ysgol/dynodiad ieithyddol ar draws pob cyfnod a chynllunio'n strategol i gefnogi uwchsgilio lle bo angen.
    - Monitro Cynlluniau Datblygu Ysgolion i sicrhau bod arweinwyr yn dangos ystyriaeth weithredol ac yn cynllunio ar gyfer gwella sgiliau ieithyddol gweithlu eu hysgolion ac yn annog staff i gymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu Cymraeg a chaffael iaith.
    - Monitro nifer yr ymgeiswyr Cymraeg eu hiaith sy'n dewis symud ymlaen i swyddi arwain ar ôl cwblhau rhaglenni datblygu arweinyddiaeth cenedlaethol ac annog ymarferwyr cymwys iawn ac arweinwyr i barhau i chwilio am gyfleoedd i wneud y mwyaf o'u cymwysterau er budd ysgolion a disgyblion Caerdydd.

2. Adolygu Cynllun Datblygu'r Gweithlu Llywodraeth Cymru[26] a cheisio prif ffrydio argymhellion ar lefel leol i wneud y mwyaf o'r gweithlu addysgu a dysgu Cymraeg rhugl a'i dyfu, gan gynnwys y twf gofynnol a'r arbenigeddau sydd ganddo.

3. Sicrhau bod ysgolion yn cael gafael ar yr adnoddau sydd ar gael i ddatblygu gweithlu Cymru mewn ysgolion gan gynnwys:
    - Cyngor, cymorth ac arweiniad i ysgolion ar sut i adlewyrchu sgiliau Cymraeg eu staff yn gywir drwy wneud y gorau o gyfraniad Swyddog Cymraeg mewn Addysg CCD.
    - Annog a monitro'r niferoedd staff addysgu sydd ar gwrs newydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol fel llwybr arall ar gyfer datblygu hyder ieithyddol o fewn y gweithlu addysgu a dysgu.

[26] Disgwyl cyhoeddi ganol 2022

- Sicrhau bod pob tîm arweinyddiaeth ysgol a llywodraethwyr yn ymwybodol o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a'r angen am sgiliau dwyieithog a bod monitro ac uwchsgilio eu staff yn allweddol fel rhan o'u hyfforddiant fel llywodraethwyr a'u DPP.

- Sicrhau bod staff o ysgolion Cymraeg yn gwneud cais am raglenni datblygu arweinyddiaeth cenedlaethol perthnasol gan gynnwys y Rhaglen Darpar Brifathrawon sy'n arwain at gymhwyster CPCP.

4. Gweithio i gefnogi twf yn y gweithlu addysgu drwy:
    - Weithio gyda phartneriaid allanol i hyrwyddo mentrau ar lwybrau i addysgu a rhannu unrhyw wybodaeth berthnasol gydag ysgolion a pharhau i ddarparu dysgu a chymorth proffesiynol i athrawon ANG, yn enwedig drwy rôl mentoriaid sefydlu rhanbarthol.

    - Hyrwyddo'r llwybrau lluosog a'r cymhellion ar gyfer hyfforddiant athrawon i ategu'r cynnwys sydd ar gael drwy Gyngor y Gweithlu Addysg.
    - Datblygu a chydlynu ymgyrch i hyrwyddo addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr addysg bellach ac uwch ar y cyd â Chaerdydd Ddwyieithog a phartneriaid-ddarparwyr, ochr yn ochr ag archwilio cyfleoedd i ariannu Swyddog Pontio i gefnogi'r gwaith hwn.[27]
    - Archwilio'r posibiliadau i ddatblygu ymgyrch hyrwyddo a recriwtio leol i dargedu'r angen am amrywiaeth pellach ar draws y gweithlu addysgu a dysgu, yn enwedig yn y gweithlu sy'n siarad Cymraeg i gefnogi cynyddu amrywiaeth disgyblion yn y sector addysg Gymraeg yn yr hirdymor a sicrhau bod pob teulu a disgybl yn teimlo bod eu hysgol yn adlewyrchu eu cymuned leol.[28]

5. Byddwn yn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus staff o ran y Gymraeg drwy:
    - Weithio'n agos gyda phartneriaethau Addysg Gychwynnol Athrawon i gefnogi hyfforddiant myfyrwyr o athrawon Cymraeg rhugl, gan gynnwys sicrhau bod ysgolion Cymraeg Caerdydd yn cael eu nodi fel ysgolion arweiniol, ysgolion hyfforddi neu ysgolion lleoliad.
    - Darparu cymorth rhagweithiol ar ôl y cynllun sabothol i ymarferwyr a chwilio am gyfleoedd i gyfranogwyr ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg ymhellach yn eu cyd-destun proffesiynol yn rheolaidd gyda golwg ar weld staff yn gweithio mewn darpariaeth sydd ymhellach ar hyd y continwwm dwyieithog (h.y. ysgolion/lleoliadau iaith deuol neu leoliadau Cymraeg.[29]
    - Uwchsgilio cymhwysedd ieithyddol y gweithlu addysgu a dysgu cyfrwng Saesneg presennol i sicrhau eu bod yn teimlo'n hyderus i gefnogi dysgu Cymraeg gwell gyda phob disgybl fel rhan o gynnig y Cwricwlwm i Gymru newydd

Dros y 10 mlynedd nesaf byddwn yn:

---

[27]Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog Thema Un, Amcan 12
[28] Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog Thema Un, Amcan 13
[29] Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog Thema Un, Amcan 13

6. Gwerthuso effaith cwrs y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol newydd ar gyfer staff addysgu yng Nghaerdydd ac a yw'n profi i fod yn effeithiol fel ffordd o ddatblygu hyder ieithyddol o fewn y gweithlu addysgu a dysgu.

7. Ei gwneud yn ofynnol i lywodraethwyr pob ysgol gynnwys adroddiad ar y Gymraeg i ddathlu ac ystyried gwell defnydd a datblygiad sgiliau Cymraeg ymhlith disgyblion ynghyd â chyfleoedd caffael iaith â ffocws iddynt ar gyfer eu staff addysgu a dysgu, a hynny yn eu hadroddiad blynyddol i rieni sydd yn gyson â Chwricwlwm i Gymru 2022.

8. Sicrhau bod ysgolion yn gosod ac yn adrodd ar dargedau ar gyfer datblygu sgiliau Cymraeg o fewn cynlluniau datblygu ysgolion yng nghyd-destun gwella safonau er mwyn sicrhau bod ffocws cryf ar flaenoriaethu datblygiad proffesiynol parhaus sy'n cynnwys gwella sgiliau ieithyddol.

9. Dwysáu gwaith gyda darparwyr Addysg Uwch ynghyd â CCD i sicrhau bod y Cynllun Sabothol Cymraeg yn cael ei ddefnyddio'n fwy strategol i ddiwallu anghenion ysgolion, yn enwedig y rhai lle bydd newidiadau o ran faint o Gymraeg a addysgir a fydd felly yn effeithio ar anghenion sgiliau'r staff.

Mae'r prif bartneriaid sy'n gyfrifol am weithredu'r camau uchod yn cynnwys:
- CCD
- Darparwyr AGA – Met Caerdydd, Y Brifysgol Agored, Coleg Cymraeg
- Cyngor y Gweithlu Addysg
- Addewid Caerdydd

ATODIAD 1

Taflwybr Caerdydd 2050

CSCA 2022 – 2031

Awst 2021

**Cynnwys**


**1. Cyd-destun Polisi**

(i) Cyd-destun Polisi Cenedlaethol Cymraeg 2050

(ii) Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2017-2022

**2. Data cefndirol**

(i) Cylchred poblogaeth diweddar

(ii) Capasiti ysgolion a lleoedd gwag

(iii) Ysgolion Cynradd - Capasiti

(iv) Ysgolion Cynradd – Niferoedd diweddar ar y gofrestr a lleoedd gwag

(v) Ysgolion Uwchradd - Capasiti

(vi) Ysgolion Uwchradd – Niferoedd diweddar ar y gofrestr a lleoedd gwag

**3. Newidiadau arfaethedig i gapasiti ysgolion: 2021 - 2025**

**4. Newidiadau Diweddarach: 2026 - 2031**

(i) Poblogaeth

(ii) Newidiadau i ddarpariaeth ysgolion yn y dyfodol (2026-2031)

(iii) Taflwybr

(iv) Methodoleg taflwybr

(v) Amcanestyniadau nifer disgyblion

(vi) Casgliadau

# Cyd-destun Polisi Cenedlaethol Cymraeg 2050

Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth Gymraeg *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg* yn unol ag Adran 78 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r strategaeth yn cefnogi 'hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg'. Ei nod yn y tymor hir yw i Gymru gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae'r strategaeth yn enwi addysg drochi cyfrwng Cymraeg fel y 'prif ddull ar gyfer sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac ar gyfer creu siaradwyr newydd' (*Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg, tud21).* Felly, bydd argaeledd addysg Gymraeg yn allweddol i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg.

Y targed cenedlaethol yw:

- Cynyddu cyfran pob grŵp blwyddyn ysgol sy'n derbyn addysg Gymraeg o 22 y cant (yn seiliedig ar 7,700 o ddysgwyr saith oed yn 2015/16) i 30 y cant (tua 10,500 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2031, ac yna 40 y cant (tua 14,000 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2050.

Cydnabyddir yn y strategaeth y bydd y dull yn amrywio ar draws gwahanol ranbarthau yng Nghymru yn dibynnu ar nodweddion eu poblogaethau. Mae'r strategaeth hefyd yn nodi ardaloedd sydd â dwysedd poblogaeth uchel ond canran is o siaradwyr Cymraeg fel ardaloedd sydd â photensial penodol ar gyfer twf.

Mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol osod targed deng mlynedd yn amlinellu'r cynnydd disgwyliedig yn y plant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal yr awdurdod lleol yn ystod oes Cynllun.

Rhaid i'r targed gael ei gefnogi gan ddatganiad yn nodi sut y byddai Awdurdod Lleol yn cyflawni'r cynnydd disgwyliedig yn nifer y plant Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod oes y Cynllun. Dyma'r targed deng mlynedd cyffredinol ar gyfer CSCA 2022 - 2031.

Mae'r fethodoleg a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i gyfrifo'r targed yn gyson â'r cerrig milltir yn Gymraeg 2050 sy'n ymwneud â'r cynnydd yn nifer y dysgwyr mewn addysg Gymraeg sydd eu hangen i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Bydd nifer y dysgwyr sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywio ym mhob grŵp blwyddyn, felly bydd y targed yn seiliedig ar nifer y dysgwyr Blwyddyn 1 (5/6 oed), sy'n cynrychioli dechrau addysg statudol. Data CYBLD ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 1 yw'r set ddata fwyaf cynhwysfawr sydd ar gael ar gyfer dysgwyr sydd ar gamau cynharaf addysg gynradd. Mae CYBLD yn gasgliad electronig o ddata ar lefel disgyblion ac ysgolion a ddarperir gan bob ysgol a gynhelir yn y sector cynradd, canol, uwchradd, meithrin ac arbennig ym mis Ionawr bob blwyddyn; fodd bynnag, yn 2021, cafwyd y data ym mis Ebrill.

Mae Awdurdodau Lleol wedi'u grwpio i gategorïau gwahanol sy'n adlewyrchu'r gwahaniaethau
(a chydnabod elfennau tebyg) rhwng y 22 awdurdod. Roedd y ffactorau a ystyriwyd wrth grwpio yn cynnwys canran y dysgwyr a addysgir yn Gymraeg ym mhob ardal, y modelau darpariaeth addysg Gymraeg a fabwysiadwyd gan Awdurdodau Lleol, a natur ieithyddol ardal.

Mae Caerdydd wedi'i gosod yn 'Grŵp 3' sy'n cael ei ddisgrifio fel a ganlyn:

"Roedd rhwng 14% ac 19% o blant Blwyddyn 1 yn yr awdurdodau lleol hyn yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2019/20. Efallai mai addysg gymunedol Gymraeg yw'r norm mewn un/nifer fach iawn o ardaloedd, ond dyma'r eithriad nid y rheol. Fel arfer mae dewis i'w gael rhwng addysg Gymraeg ac addysg Saesneg."

Mae'r tabl isod yn nodi gwaelodlin 2019/2020 a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, a'r targedau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, ar gyfer Caerdydd:

**Tabl 1: Gwaelodlinau a thargedau Caerdydd a gyhoeddwyd yng nghanllawiau'r CSCA**

| | 2019/20 | | 2030/31 | | 2030/31 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Ystod Is | | Ystod Uwch | |
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| Caerdydd | 702 | 16.9% | 1,035 | 25% | 1,200 | 29% |
| Cymru | 7848 | 23.3% | 10415 | 31% | 11690 | 35% |

Mae'r niferoedd ar y gofrestr (NAG) ar gyfer Ionawr 2020 yn dangos bod ychydig o dan 4,700 o blant yn mynychu ysgolion cynradd Cymraeg (4-11 oed) yng Nghaerdydd ac ychydig dros 3,200 mewn ysgolion uwchradd Cymraeg (11-18 oed). Mae'r ffigurau NAG yn dangos bod cyfran gyffredinol y plant sydd mewn addysg Gymraeg llawn amser (4-18 oed) yng Nghaerdydd yn 16% ym mis Ionawr 2020.

## Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2017-2022

Gosododd Cyngor Caerdydd ei *Caerdydd Ddwyieithog: Strategaeth 5 Mlynedd yr Iaith Gymraeg 2017-2022* yn 2016. Nod y strategaeth hon yw creu 'Caerdydd wirioneddol ddwyieithog.' Mae hefyd yn anelu at gyfrannu at ddyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2050 yn unol â *Cymraeg 2050.*

Yn gynwysedig yng nghynllun gweithredu'r strategaeth roedd y targedau i:

- Gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n mynychu ysgolion Cymraeg 12.3% erbyn 2022.
- Cynyddu nifer y plant saith oed a addysgir trwy'r Gymraeg 1.2%, o 15.2% yn Ionawr 2016 i 16.4% erbyn 2020.

Rhan annatod o Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog oedd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020 (CSCA), a oedd yn canolbwyntio ar dwf a darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.


O'r saith deilliant strategol yn CSCA 2017-2020, edrychodd Deilliant 1 ar ddarparu lleoedd cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd ac ychwanegodd darged ychwanegol i'r ddau a nodwyd yn y strategaeth Caerdydd Ddwyieithog:

- Cynyddu nifer y plant oed Derbyn sy'n mynd i addysg Gymraeg bob blwyddyn.

O'r tri tharged a nodir yn Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog a'r CSCA, mae dau eisoes wedi'u cyrraedd.


Mae ffigurau NAG ar gyfer Ionawr 2020 yn dangos bod 16.5% o blant saith oed yng Nghaerdydd yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ganran yn amrywio rhwng 2016 a 2020, gyda gostyngiad yn 2018, ond y duedd gyffredinol yw cynnydd yn nifer y plant saith oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Ffigur 1: Canran y plant saith oed mewn addysg Gymraeg**




Mae nifer y plant oedran Derbyn sy'n mynd i addysg Gymraeg wedi amrywio rhwng 2010 a 2020, er bod y duedd gyffredinol yn gynnydd araf. Fodd bynnag, gall hyn fod oherwydd newidiadau yn nifer y plant ym mhob carfan, a hefyd newidiadau o ran dewis o blaid addysg Ggymraeg. O edrych ar ganran y plant oedran Derbyn mewn addysg Gymraeg mae amrywiadau o hyd o flwyddyn i flwyddyn, ond mae'r duedd gyffredinol yn gynnydd mwy serth.

**Ffigur 2: Niferoedd i'r Dosbarth Derbyn mewn ysgolion Cymraeg yng Nghaerdydd (data CYBLD)**




**Ffigur 3: Canran y plant oedran Derbyn mewn addysg Gymraeg yng Nghaerdydd (data CYBLD)**



Pennwyd y trydydd targed i gynyddu nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion Cymraeg 12.3% ar gyfer 2022. Ym mis Ionawr 2017 roedd 7,272 o ddisgyblion 4-18 oed yn mynd i ysgolion Cymraeg. Roedd hyn wedi cynyddu i 7,902 o ddisgyblion cyfrwng Cymraeg ym mis Ionawr 2020, sy'n gynnydd o 8.7%.  Ar gyfartaledd mae nifer y disgyblion mewn ysgolion  Cymraeg wedi cynyddu dros 200 o ddisgyblion bob blwyddyn. Er mwyn cyrraedd y targed o 8,107 o ddisgyblion erbyn 2022, a nodir yn Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog, dim ond cynnydd o 205 o ddisgyblion eraill fyddai eu hangen ar y nifer presennol. Felly mae'n debygol iawn y bydd y cyrhaeddir y targed o 12.3% erbyn 2022. Fodd bynnag, mae llawer o'r cynnydd hwn yn cael ei lywio gan batrymau poblogaeth yn hytrach na newid o ran dewis.

Er mwyn cyfrannu at dargedau newydd Cymraeg 2050, bydd y ddogfen hon yn edrych ar y ddarpariaeth bresennol yng Nghaerdydd a pha gamau y gellir eu cymryd er mwyn helpu i gyrraedd targed Llywodraeth Cymru o filiwn o Siaradwyr Cymraeg.

# Data cefndirol


**Cylchred poblogaeth diweddar**

Mae cyfraddau geni yng Nghaerdydd wedi amrywio'n sylweddol yn y blynyddoedd diweddar. Mae data poblogaeth a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru (Stats Wales) yn dangos patrwm cylchol dros y 25 mlynedd diwethaf.

Mae Ffigur 7 isod yn dangos bod nifer y genedigaethau wedi gostwng rhwng 1996 a 2002, ac ar yr adeg honno fod y nifer wedi gostwng i 3,569. Yn nhermau cynllunio lleoedd ysgol, mae hyn yn cyfateb i 119 o Ddosbarthiadau Mynediad (DM).


Dilynwyd hynny gan gyfnod o dwf tan yr uchafbwynt o 4770 (159 DM) yn 2011, cynnydd o dros 33%. Dechreuodd genedigaethau ostwng yn 2012 ac maent wedi bod yn gostwng oddi ar hynny. Yn dilyn y patrwm hwn, mae'n fwy tebygol y byddwn yn parhau i weld cynnydd a chwymp yn y gyfradd enedigaethau yn hytrach na chynnydd mwy graddol a chyson dros amser.

**Ffigur 4: Genedigaethau yng Nghaerdydd 1996 – 2019 (Stats Cymru)**




Mae'r cylchred hwn a welwyd yn nata cyfraddau geni Caerdydd yn wahanol i'r amcanestyniadau poblogaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2011 a 2014, ac mae hefyd yn wahanol i'r amcanestyniadau diweddaraf yn 2018 a gyhoeddwyd yn 2020:

**Ffigur 5: Amcanestyniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer nifer y plant 0 oed o gymharu â'r gyfradd enedigaethau**




Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau rhif a chanran ar gyfer Caerdydd sy'n seiliedig ar boblogaeth 2030/31 yn y garfan berthnasol o tua 4,140 o blant. Fodd bynnag, mae dadansoddiad o'r data poblogaeth diweddaraf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn dangos amcanestyniad poblogaeth sy’n is.

Mae'r Cyngor yn casglu data cofrestru meddygon teulu gan y GIG bob blwyddyn sy'n dangos y bydd y gyfradd enedigaethau yng Nghaerdydd 2020, pan gaiff ei chyhoeddi, yn is na'r gyfradd enedigaethau a ragamcennir gan Lywodraeth Cymru. Felly, rhaid i unrhyw dargedau tymor byr neu ganolig a osodir yng Nghaerdydd ystyried y data cyfraddau geni diweddaraf sydd ar gael.

## Capasiti ysgolion a lleoedd gwag

Ar hyn o bryd mae'r ddarpariaeth Gymraeg yn cyfrif am oddeutu 16% o gapasiti lleoedd ysgol (4-18 oed) yng Nghaerdydd.

Darperir tua 18% o leoedd cynradd (4-11 oed) a 15% o leoedd uwchradd (11-18 oed) drwy gyfrwng y Gymraeg. Wrth ystyried ysgolion cymunedol yn unig (h.y. ac eithrio ysgolion ffydd sydd yn ysgolion cyfrwng Saesneg yn unig yng Nghaerdydd), darperir tua 20% o'r lleoedd cynradd (4-11 oed) a 23% o'r lleoedd uwchradd (11-18 oed) drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi'r canlynol ynghylch lleoedd gwag:

*"Mae angen rhai lleoedd gwag fel y gall ysgolion ymdopi ag amrywiadau mewn niferoedd disgyblion, ond mae gormod o leoedd gwag, y gellid eu dileu, yn golygu bod adnoddau'n cael eu gwastraffu'n ddiangen. Os oes mwy na 10% o leoedd gwag mewn ardal yn gyffredinol, dylai awdurdodau lleol adolygu eu darpariaeth ac ystyried os y dylent wneud cynigion ar gyfer cael gwared arnynt, os y bydd yn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y ddarpariaeth.*

*Fel arfer, ni ddylid bod angen darparu lleoedd ychwanegol mewn ysgolion os oes gan ysgolion eraill o'r un fath leoedd gwag o fewn pellter rhesymol. Fodd bynnag efallai y bydd cynigion i gynyddu nifer y lleoedd mewn ymateb i'r galw am fath arbennig o ddarpariaeth e.e. cyfrwng Cymraeg, yn dal yn briodol - yn enwedig os oes darpariaeth effeithiol o leoedd wedi'i chynllunio ar gyfer ardal yr awdurdod lleol."*

### Ysgolion Cynradd - Capasiti

Y Niferoedd Derbyn Cyhoeddedig (NDCau) cyfredol ar gyfer mynediad i'r flwyddyn Dderbyn ym mhob ysgol gynradd sy'n rhoi'r mesuriad mwyaf priodol o gapasiti, ar gyfer derbyn disgyblion i'r ysgol, yn yr ystod oedran cynradd. Y rheswm am hyn yw y gallai rhai ysgolion fod ran o'r ffordd drwy newid graddol, i gynyddu neu leihau cyfanswm eu capasiti, yn dilyn gweithredu cynnig.

Mae Tabl 2 isod yn dangos cyfanswm nifer y Dosbarthiadau Mynediad (DM) ar gyfer addysg gymunedol Saesneg, addysg Saesneg yn seiliedig ar ffydd ac addysg Gymraeg ar gyfer Derbyn yn 2020/21.

**Tabl 2: Cyfanswm y dosbarthiadau mynediad ar gyfer Derbyn yn 2020/21**

| | Cyfanswm DM | Canran |
|---|---|---|
| Cymunedol Cyfrwng Saesneg | 101.7 | 64.4% |
| Saesneg yn seiliedig ar ffydd | 28.4 | 18% |
| Cyfrwng Cymraeg | 27.9 | 17.6% |
| Cyfanswm | 158 | 100% |

Ym mis Medi 2020, roedd 17.6% o'r ddarpariaeth gynradd yng Nghaerdydd yn ddarpariaeth Gymraeg.

Mae Tabl 3 yn dangos data'r niferoedd diweddaraf ar y gofrestr (NAG), a gymerwyd o fis Ebrill 2021. Ar y pryd, roedd 16.1% o'r plant ar y gofrestr ysgolion cynradd prif ffrwd yng Nghaerdydd mewn addysg Gymraeg.

**Tabl 3: Nifer ar y Gofrestr ar gyfer ysgolion cynradd ym mis Ebrill 2021 (CYBLD 2021)**

| | **NAG** | **Canran** |
|---|---|---|
| Cymunedol Cyfrwng Saesneg | 19,422 | 66.3% |
| Saesneg seiliedig ar ffydd | 5,144 | 17.6% |
| Cyfrwng Cymraeg | 4,707 | 16.1% |
| Cyfanswm | 29,273 | 100% |

Mae nifer y disgyblion sy'n mynd i addysg gynradd Gymraeg yng Nghaerdydd wedi bod yn cynyddu'n gyson dros y deng mlynedd diwethaf ac mae'r ddarpariaeth wedi cynyddu yn unol â hynny. Ers 2010, mae Caerdydd wedi cynyddu capasiti parhaol fel a ganlyn:

Tabl 4: Mwy o gapasiti wrth fynd i addysg gynradd, 2012-2021

| **Blwyddyn** | **Ysgol(ion)** | **Newid** | **Newid capasiti net** |
|---|---|---|---|
| 2012 | Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd | Ehangu o 1.5DM i 2DM* | +0.5DM |
| 2013 | Ysgol Gymraeg Treganna | Ehangu o 1.8DM i 3DM | +1.2DM |
| 2013 | Ysgol Tan Yr Eos | Cau 1DM (cynnig cysylltiedig) | |
| 2016 | Ysgol y Wern | Ehangu o 2DM i 2.5DM* | +0.5DM |
| 2016 | Ysgol Gymraeg Hamadryad | Sefydlu ysgol newydd i ddechrau yn 1DM | +1DM |
| 2017 | Ysgol Glan Morfa | Adeilad newydd ac ehangu o 1DM i 2DM | +1DM |
| 2018 | Ysgol Glan Ceubal | Adeilad newydd ac ehangu o 0.9DM i 1DM | +0.1DM |
| 2017 | Ysgol Gymraeg Hamadryad | Adeilad newydd ac ehangu o 1DM i 2DM | 1DM |
| 2019 | Ysgol y Wern | Ehangu o 2.5DM i 3DM* | +0.5DM |
| **2012-2021** | **Cynnydd capasiti Cynradd:** | | **5.8DM** |

- Yn dynodi ehangu dros dro cyn cynnydd parhaol

Ar y cyfan, cynyddodd nifer y dosbarthiadau mynediad Cymraeg yng Nghaerdydd 5.8DM yn y cyfnod 2010-2020.

**Ffigur 6: NAG Dosbarthiadau mynediad a Derbyn (Ionawr) mewn addysg Gymraeg o 2010/11 - 2020/21**





## Ysgolion Cynradd – Niferoedd diweddar ar y gofrestr a lleoedd gwag

Yn gyffredinol, mae nifer y disgyblion sy'n cymryd lleoedd Derbyn mewn ysgolion Cymraeg wedi cynyddu o 638 (21.3DM) ym mis Ionawr 2011 i 749 ym mis Ionawr 2021. Fel rheol, mae nifer y plant sy'n cael llefydd Derbyn mewn ysgolion Cymraeg yn uwch yn nhymor yr hydref ond yn gostwng erbyn dyddiad CYBLD mis Ionawr.


Nid yw'r cynnydd cyffredinol wedi bod yn gyson, gyda'r niferoedd yn codi mewn rhai blynyddoedd ac yn gostwng mewn eraill, ond y duedd fu cynnydd yn nifer y disgyblion Cymraeg dros y cyfnod o ddeng mlynedd.

Ffigur 7: Niferoedd disgyblion i ysgolion Cymraeg yn y Dosbarth Derbyn (Data CYBLD mis Ionawr)



Mae canran y disgyblion Derbyn mewn addysg Gymraeg yn dilyn patrwm tebyg gyda chynnydd mewn rhai blynyddoedd a gostyngiad mewn eraill, ond gyda chynnydd cyffredinol yn y ganran dros y deng mlynedd.

**Ffigur 8: Canran y disgyblion sy'n mynd i'r Dosbarth Derbyn mewn ysgolion Cymraeg**




Y cynnydd canrannol blynyddol rhwng 2015 a 2021 oedd 0.25%. Felly, mae'n rhesymol rhagweld y byddai'r galw'n parhau i godi ar gyfradd debyg am y deng mlynedd nesaf. Amcanestyniadau yw'r canrannau a ragwelir os yw'r patrymau a'r tueddiadau presennol, o'u cymharu â'r boblogaeth, yn parhau.

At ei gilydd, mae nifer y plant sy'n cofrestru mewn Addysg Gymraeg wedi cynyddu'n raddol ac mae lefel gynaliadwy o leoedd gwag ledled y ddinas o dros 10% wedi'i chynnal bob blwyddyn dros y cyfnod 2016-2021. Mae'r gwarged hwn wedi sicrhau bod y Cyngor yn gallu derbyn pob plentyn sy'n dymuno cofrestru i gael addysg Gymraeg. Fodd bynnag, mae lefel y gwarged yn amrywio ledled y ddinas.

## Ysgolion Uwchradd - Capasiti

Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm nifer y Dosbarthiadau Mynediad (DM) ar gyfer addysg gymunedol Saesneg, addysg Saesneg yn seiliedig ar ffydd ac addysg Gymraeg ar gyfer Blwyddyn 7 yn 2020/21.

**Tabl 5: Cyfanswm y Dosbarthiadau Mynediad ar gyfer Blwyddyn 7 yn 2020/21**

| | **Cyfanswm DM** | **Canran** |
|---|---|---|
| Cymunedol Cyfrwng Saesneg | 85.5 | 61.6% |
| Saesneg seiliedig ar ffydd | 32.3 | 23.3% |
| Cyfrwng Cymraeg | 21 | 15.1% |
| Cyfanswm | 138.83 | 100% |

Ar hyn o bryd mae 15.1% o'r ddarpariaeth uwchradd yng Nghaerdydd drwy gyfrwng y Gymraeg.


Mae'r data NAG diweddaraf o fis Ebrill 2021, yn Nhabl 6, yn dangos bod 15% o'r plant ar y gofrestr mewn ysgolion uwchradd prif ffrwd yng Nghaerdydd mewn addysg Gymraeg.

Tabl 6: **NAG ar gyfer ysgolion uwchradd (11-18 oed) ym mis Ebrill 2021**

| | **NAG** | **Canran** |
|---|---|---|
| Cymunedol Cyfrwng Saesneg | 13,496 | 60.5% |
| Saesneg yn seiliedig ar ffydd | 5,457 | 24.5% |
| Cyfrwng Cymraeg | 3,356 | 15% |
| Cyfanswm | 22,309 | 100% |

Cynyddodd y ddarpariaeth addysg uwchradd Gymraeg yng Nghaerdydd yn sylweddol - 6DM rhwng 2011 a 2012, gydag Agor Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern, gan gymryd cyfanswm y capasiti o 14DM i 20DM. Cynyddodd y capasiti 1DM ymhellach yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr yn 2020 i ddarparu lle ar gyfer pob disgybl sy'n dymuno cofrestru mewn addysg uwchradd Gymraeg, tra'n cadw lefel gynaliadwy o leoedd gwag.

**Ffigur 9: Dosbarthiadau mynediad a NAG ar gyfer Blwyddyn 7 mewn addysg Gymraeg o 2010-2020**




**Ysgolion Uwchradd – Niferoedd diweddar ar y gofrestr a lleoedd gwag**

At ei gilydd, mae nifer y plant sy'n pontio i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu'n raddol o 394 (13.1DM) ym mis Ionawr 2011 i 601 (20DM) ym mis Ebrill 2021. Mae'r Cyngor wedi gallu derbyn pob plentyn sy'n dymuno pontio i addysg uwchradd Gymraeg, yn gyntaf drwy drefniadau i ehangu Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ac Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr ac yna i sefydlu Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern.

Gostyngodd lefel y lleoedd gwag dros gyfnod estynedig yn dilyn sefydlu Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern yn 2012, o warged o 36.6% yn 2012/13 i 8.3% erbyn 2018/19. Parodd twf Bro Edern, a llai o niferoedd yn mynd i Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, anawsterau sefydliadol ac ariannol ar gyfer y ddwy ysgol.

## Newidiadau arfaethedig i gapasiti ysgolion: 2021 - 2025

Cytunwyd ar y newidiadau parhaol canlynol i gapasiti ysgolion a chânt eu gweithredu yn y cyfnod 2021-2025:

- Ehangu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg o 0.5DM i 1DM
- Cadarnhau Ysgol Gynradd Allensbank, o 1.5DM i 1DM
- Sefydlu ysgol gynradd 2 DM ddwy ffrwd i wasanaethu camau cynnar datblygiad Plasdŵr.
- Ehangu Ysgol Uwchradd Cantonian o 6DM i 8DM
- Cadarnhau Ysgol Uwchradd Willows o 7.4DM i 6DM
- Ehangu Ysgol Gyfun Radur o 7DM i 8DM

Mae'r Cyngor wedi cytuno i ymgynghori ar y newidiadau parhaol canlynol i gapasiti ysgolion:

- Ehangu Ysgol Gynradd Pentyrch o 0.7DM i 1DM

Mae'r newidiadau parhaol canlynol i gapasiti ysgolion wedi'u cynllunio o fewn Rhaglen Band B Ysgolion y 21 Ganrif Caerdydd yn y cyfnod 2021-2025:

- Ehangu Ysgol Uwchradd Cathays o 5.5DM i 8DM
- Ehangu Ysgol Uwchradd Caerdydd o 8DM i 10DM
- Gwerth 1DM yn rhagor o leoedd i wasanaethu dalgylch Ysgol Gymraeg Nant Caerau
- Gwerth 1DM yn rhagor o leoedd i wasanaethu dalgylch Ysgol Pen Y Pil

Mae'r Cyngor hefyd wedi sicrhau cyllid Grant Cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg fel a ganlyn:

- Gwerth 1 DM yn rhagor o leoedd i wasanaethu dalgylch Ysgol Mynydd Bychan

Byddai cynigion yr ysgolion cynradd yn cynyddu'r ddarpariaeth Saesneg 1.3DM a'r ddarpariaeth Gymraeg 4DM, a fyddai'n cynyddu cyfanswm y Dosbarthiadau Mynediad (DM) ar gyfer addysg Gymraeg ar gyfer y Dosbarth Derbyn i 19.5% o'r ddarpariaeth sydd ar gael erbyn mis Medi 2025.

**Tabl 7: Cyfanswm y Dosbarthiadau Mynediad ar gyfer Derbyn erbyn Medi 2025**

| | **Cyfanswm DM** | **Canran** |
|---|---|---|
| Cymunedol Cyfrwng Saesneg | 103DM (+0.8DM) | 62.9% |
| Saesneg yn seiliedig ar ffydd | 28.9 (+0.5DM) | 17.6% |
| Cyfrwng Cymraeg | 31.9 (+4DM) | 19.5% |
| Cyfanswm | 163.8 (+5.3DM) | 100% |

Byddai'r cynigion ysgolion uwchradd yn cynyddu'r ddarpariaeth Saesneg 6.1 DM, a fyddai'n gostwng canran y Dosbarthiadau Mynediad (DM) i addysg uwchradd Gymraeg i 14.5% o'r ddarpariaeth a fydd ar gael erbyn mis Medi 2025

Tabl 8: Cyfanswm y Dosbarthiadau Mynediad ar gyfer Blwyddyn 7 erbyn mis Medi 2025

| | Cyfanswm DM | Canran |
|---|---|---|
| Cymunedol Cyfrwng Saesneg | 91.6 (+6.1DM) | 63.2% |
| Saesneg seiliedig ar ffydd | 32.3 (Dim newid) | 22.3% |
| Cyfrwng Cymraeg | 21 (Dim newid) | 14.5% |
| Cyfanswm | 144.9 (+6.1DM) | 100% |

# Newidiadau yn y Dyfodol

## Poblogaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer Cymru, sy'n seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ar gyfer y Deyrnas Gyfunol. Cyhoeddwyd y set ddiweddaraf o amcanestyniadau, yn seiliedig ar ddata 2018, ar 4 Awst 2020. Maent yn cwmpasu'r cyfnod o 25 mlynedd rhwng 2018 a 2043.

Nid yw'r amcanestyniadau'n darogan yr hyn fydd yn digwydd mewn gwirionedd yn yr un modd ag y byddai rhagolwg yn yn ei wneud. Yn hytrach, maent yn gwneud rhagdybiaethau am newidiadau yn y dyfodol ac yn dangos yr hyn fyddai'r boblogaeth pe bai'r newidiadau hynny yn y dyfodol yn digwydd. Nid ydynt yn rhagweld effaith ffactorau allanol fel polisïau'r llywodraeth neu amodau economaidd.


Cyhoeddwyd tri amrywiolyn gwahanol yn 2020: prif, uchel ac isel. Mae'r rhain yn seiliedig ar ragdybiaethau am ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo yn y dyfodol. Y prif amrywiolyn yw'r prif amcanestyniad h.y. yr adlewyrchiad gorau o batrymau demograffeg. Mae'r rhai uchel ac isel yn cynnig senarios amgen yn y dyfodol, gan ystyried tybiaethau gwahanol ar gyfer y tri ffactor poblogaeth. Nid yw'r amrywiolion wedi'u gosod fel terfynau, ond yn hytrach maent yn rhoi lefel o hyblygrwydd sy'n adlewyrchu'r ansicrwydd o ragweld newidiadau poblogaeth.

Mae amcanestyniadau 2018 yn dangos cynnydd is yn y boblogaeth yng Nghaerdydd na'r amcanestyniadau blaenorol yn 2014. Mae'r cynnydd yn y boblogaeth 6.8% yn is na'r amcanestyniadau o gynnydd blaenorol. Fodd bynnag, rhagamcennir y bydd poblogaeth Caerdydd yn dal i gynyddu 3.2%. Er nad dyma'r cynnydd canrannol mwyaf yng Nghymru, Caerdydd yw'r awdurdod lleol mwyaf o hyd gydag amcanestyniad poblogaeth o dros 375,700 erbyn 2028.

Yn wahanol i ardaloedd eraill, mae'r cynnydd ym mhoblogaeth Caerdydd yn deillio'n bennaf o nifer uwch o enedigaethau na marwolaethau, gyda chynnydd bach yn unig o fudo net. Er bod yr amcanestyniadau'n dangos gostyngiad yn nifer y plant a'r bobl ifanc rhwng 0 a 15 oed, rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau'n cynyddu rhwng 2018 a 2028.

Rhagamcennir y bydd nifer y plant 5 oed (plant oedran Derbyn) yng Nghaerdydd yn gostwng i ddechrau, rhwng 2018 a 2024, cyn cynyddu'n araf hyd at 2043. Byddai hyn yn awgrymu na fydd cynnydd mawr yn y galw am leoedd ysgolion hyd at 2043.


**Ffigur 10: Amcanestyniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer nifer y plant 5 oed yng Nghaerdydd 2018-2043**




Fodd bynnag, fel yr amlinellir ar dudalen 8, mae cyfraddau geni yng Nghaerdydd wedi dilyn patrwm cylchol dros y 25 mlynedd diwethaf. Mae'r cyfraddau geni wedi gostwng yn is na phob un o dri taflwybr amcanestyniad poblogaeth Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2011, 2014 ac yn fwyaf diweddar yn 2020 (yn seiliedig ar ddata 2018).

Mae Ffigur 11 yn dangos cynnydd y genedigaethau hyd at 2011 a sut y dechreuodd genedigaethau ostwng yn 2012 a gostwng ers hynny. Yn dilyn y patrwm hwn, mae'n bosibl y byddwn yn parhau i weld cynnydd a chwymp yn y gyfradd enedigaethau yn hytrach na chynnydd mwy graddol a chyson dros amser.

**Ffigur 11: Genedigaethau yng Nghaerdydd 1996 – 2019**




Mae Ffigur 12 yn dangos amcanestyniad amgen ar gyfer nifer y plant pum mlwydd oed sy'n dechrau yn y Dosbarth Derbyn hyd at 2050. Mae'r taflwybr amgen hwn yn ailadrodd y cyfraddau geni blaenorol a'r niferoedd a gofrestrwyd mewn ysgolion ac yn ymgorffori'r amcanestyniadau niferoedd gros o flwyddyn i flwyddyn o'r datblygiadau tai strategol a gyhoeddwyd yn CDLl mabwysiedig y ddinas.

Pe dilynid y taflwybr amgen hwn, gallai Caerdydd weld y gyfradd enedigaethau yn cyrraedd uchafbwynt tua 2031, a fyddai'n rhoi uchafbwynt o ran nifer y disgyblion 5 oed sy'n cofrestru mewn ysgolion tua'r flwyddyn 2036 ar ychydig o dan 5,000. Byddai'r niferoedd wedyn yn dechrau gostwng eto, er y byddent yn aros yn uwchlaw isafbwynt blaenorol y cylchred oherwydd y cynnydd cyffredinol yn y boblogaeth yn deillio o'r tai newydd yn y ddinas. Mae'r taflwybr hwn yn wahanol iawn i amcanestyniadau poblogaeth cyhoeddedig Llywodraeth Cymru, yn is na'r amcanestyniadau yn y tymor byr (2021-2026) ac yn uwch na'r amcanestyniadau yn y tymor hwy (y tu hwnt i 2031).

Gan fod amcanestyniadau'r Cyngor o nifer y plant 5 oed yn y cyfnod 2021-2025 yn seiliedig ar ddata cofrestru meddygon teulu'r GIG a ddarparwyd ym mis Awst 2021, gellir bod yn go hyderus yn yr amcanestyniadau tymor byr hyn. Mae hefyd yn rhesymol dod i'r casgliad yn seiliedig ar gylchredau poblogaeth y gorffennol, er bod amseriad a chyfradd y newid yn ansicr, mae nifer y disgyblion sy'n cofrestru yn y dyfodol y tu hwnt i 2025 yn debygol o gynyddu. Felly, dylid cadw lefel ddigonol ond cynaliadwy o gapasiti dros ben mewn ysgolion er mwyn ymateb i newidiadau yn y boblogaeth yn y dyfodol.

Ffigur 12: Amcanestyniad o nifer y plant 5 oed yng Nghaerdydd 2020-2050



## Newidiadau diweddarach i ddarpariaeth ysgolion (2026-2031)

Byddai'r newidiadau arfaethedig i ddarpariaeth ysgolion yn y cyfnod 2021 – 2025 a amlinellir ar dudalen 15 yn cynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael wrth fynd i addysg Gymraeg o 836 o leoedd (27.9DM) i 956 o leoedd (31.9DM).

Bydd angen cyflwyno sawl cynnig y tu hwnt i 2025 i ateb y galw cynyddol am leoedd mewn ysgolion cynradd mewn rhai ardaloedd yng Nghaerdydd a chyflwyno ysgolion newydd i ddarparu ar gyfer mwy o alw o safleoedd tai maes glas strategol newydd a gynlluniwyd ar gyrion y ddinas. Mae'r safleoedd tai newydd yn cynnwys:

- Datblygiad Churchlands, Llys-faen
- Tir i'r gogledd o Bontprennau/ i'r dwyrain o Lys-faen
- Datblygiad tai Llanilltern i'r gogledd o Gyffordd 33 yr M4.
- Camau diweddarach datblygiad tai Plasdŵr yng ngogledd-orllewin Caerdydd.

Ochr yn ochr â chynigion i newid peth ar ddarpariaeth bresennol y ddinas, gallai'r ysgolion newydd ychwanegu hyd at wyth dosbarth mynediad i leoedd ysgolion cynradd yn y cyfnod 2026-2031. Rhagwelir y caiff darpariaeth newydd i wasanaethu datblygiadau Churchlands a Llanilltern eu cyflwyno tua 2025/2026, a darpariaeth bellach ym Mhlasdŵr ac i'r gogledd o Bontprennau tua diwedd y degawd.


Yn absenoldeb cynigion datblygedig, mae'r Cyngor wedi modelu newidiadau capasiti yn seiliedig ar ddarpariaeth newydd sydd yn 50% cyfrwng Cymraeg. Mae'r tabl isod yn cynnwys yr holl newidiadau i gapasiti a gynlluniwyd yn y cyfnod 2021-2025 a'r lleoedd ychwanegol yn y cyfnod 2026-2031.

**Tabl 9: Cyfanswm y Dosbarthiadau Mynediad ar gyfer Derbyn yn 2030/31**

| | **Cyfanswm DM** | **Canran** |
|---|---|---|
| Cymunedol Cyfrwng Saesneg | 107DM (+4.8DM) | 62.3% |
| Saesneg yn seiliedig ar ffydd | 28.9 (+0.5DM) | 16.8% |
| Cyfrwng Cymraeg | 35.9 (+8DM) | 20.9% |
| Cyfanswm | 171.8 (+13.3DM) | 100% |

Mae Ffigur 13 yn dangos sut y gallai nifer y dosbarthiadau mynediad Cymraeg wrth fynd i addysg gynradd gynyddu o flwyddyn i flwyddyn, wrth i ysgolion gael eu codi neu eu hehangu.

**Ffigur 13: DM Cymraeg arfaethedig yn y dyfodol yng Nghaerdydd ar gyfer derbyn mis Medi**


Number of WM Forms of Entry
0
5
10
15
20
25
30
35
40
2010
2011
2012
2013
2014
2015
2016
2017
2018
2019
2020
2021
2022
2023
2024
2025
2026
2027
2028
2029
2030
2031

## Taflwybr

Pennwyd targedau ar gyfer awdurdodau lleol unigol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ysgol 2030/31, yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth Llywodraeth Cymru. Mae'r targedau hyn yn cynnwys ystod is ac ystod uwch ac yn rhoi niferoedd a chanran y disgyblion ar gyfer pob un. Mae targed Caerdydd wedi'i nodi yn y tabl isod.

**Tabl 10: Targedau ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd 2030-31**

| | 2019/20 | | 2030/31 | | 2030/31 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwaelodlin LIC | | Targed: Ystod Is | | Targed: Ystod Uwch | |
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| Caerdydd | 702 | 16.9% | 1,035 | 25% | 1,200 | 29% |

Yn 2020/2021, nifer y disgyblion Derbyn Cymraeg oedd 749, sef 18.0% o gyfanswm y disgyblion a dderbyniwyd. Felly, er mwyn cyrraedd y targed ystod is byddai angen cynnydd canrannol o tua 7.0%. Er mwyn cyrraedd y targed ystod uwch byddai angen cynnydd canrannol o tua 11.0%.

Felly, dylid sefydlu taflwybrau i nodi'r twf posibl yn y niferoedd yn y Flwyddyn Dderbyn i ysgolion Cymraeg ym mis Medi 2030, ac i ddangos sut y gallai'r rhain gyd-fynd â thargedau Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

Byddai taflwybr targed yn amlinellu'r canlyniad gofynnol i ddeillio o unrhyw gamau y gellid eu cymryd i gynyddu'r niferoedd sy'n dewis addysg Gymraeg i'r trothwy a argymhellir, ond ni fwriedir iddo nodi'r camau gweithredu eu hunain.

Cynhyrchwyd taflwybrau yn seiliedig ar gyfuniad o'r galw diweddar am leoedd Derbyn Cymraeg, a gymhwyswyd at ddata amcanestyniadau poblogaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â modelu'r niferoedd disgyblion o'r rhaglen adeiladu tai safleoedd strategol sydd ar y gweill yng Nghaerdydd.

Dros y deng mlynedd diwethaf, bodlonwyd y galw cynyddol am leoedd a'i yrru/ei gefnogi drwy ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg bresennol 5.8 dosbarth mynediad. Er y gallai fod angen rhagor o ddarpariaeth ar gyfer cynnydd pellach yn y galw mewn rhai ardaloedd yng Nghaerdydd (ymagwedd sy'n seiliedig ar alw), mae cyfle hefyd i gynyddu niferoedd cyfrwng Cymraeg ymhellach drwy agor neu ehangu mwy o ysgolion Cymraeg (ymagwedd sy'n cael ei lywio gan bolisi).

Er y gallai'r gyfradd enedigaethau yng Nghaerdydd yn y blynyddoedd i ddod fod yn is nag y bu yn y degawd diwethaf, mae nifer o ddatblygiadau tai wedi'u cynllunio yn y ddinas. Bydd datblygiadau tai newydd yn cynyddu nifer y plant fydd angen lleoedd ysgol mewn rhai ardaloedd yn y ddinas. Darperir ysgolion newydd gan ddatblygwyr ar rai safleoedd fel rhan o'r cytundeb cynllunio gyda'r Cyngor, er mwyn lleihau'r effaith ar argaeledd lleoedd mewn ysgolion sy'n bod eisoes.

Mae sicrhau bod darpariaeth Gymraeg ar gael yn yr ysgol leol ar gyfer preswylwyr datblygiadau tai newydd yn debygol o gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar addysg

Gymraeg yn gynt na phe bai'r ddarpariaeth ond yn cael ei hehangu yn unol â galw cynyddol.

## Methodoleg taflwybr

Mae creu'r taflwybr yn gofyn am amcangyfrif ynghylch faint o ddisgyblion a allai o bosib fynd i addysg Gymraeg pe bai darpariaeth Gymraeg ychwanegol ar gael yn eu hardal leol. Mae'r modelu hwn hefyd yn rhagamcanu sut y byddai darparu ysgolion Cymraeg ar gyfer datblygiadau tai newydd yn debygol o effeithio ar nifer y disgyblion sy'n mynd i addysg Gymraeg.

Defnyddiwyd y patrwm twf diweddar sy'n seiliedig ar ddata CYBLD 2015/16 - 2020/21 i bennu'r twf cynhenid yng nghanran y plant sy'n mynd i addysg Gymraeg, ac i allosod hyn i 2031 fel gwaelodlin ar gyfer twf o fewn cymunedau sy'n bod yn barod.

Fodd bynnag, ni ellir defnyddio twf hanesyddol y galw am addysg Gymraeg mewn cymunedau sefydledig i bennu'r nifer fydd am addysg Gymraeg o blith preswylwyr y dyfodol yn y cymunedau newydd a gynlluniwyd ar safleoedd tir glas strategol ar gyrion y ddinas. Mae'r niferoedd sy'n cymryd lleoedd yn amrywio'n fawr o gymuned i gymuned yng Nghaerdydd. O ganlyniad, mae'r patrymau twf yn y galw am addysg Gymraeg wedi'u dadgyfuno a'r llwybr wedi ei bennu ar wahân, fel a ganlyn:

- Mae prif amcanestyniadau poblogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer plant 5 oed yn cael eu haddasu i gyd-fynd â'r flwyddyn ysgol (blwyddyn Dderbyn)
- Addasir yr amcanestyniadau ymhellach o'u cymharu â data'r cyfrifiad ysgolion diweddar (CYBLD) i sefydlu gwaelodlin o niferoedd disgyblion
- Caiff y niferoedd disgyblion a ragamcennir, yn seiliedig ar gwblhau tai ar y datblygiadau tai safleoedd strategol, eu tynnu allan o ffigur amcanestyniad Llywodraeth Cymru.
- Mae patrwm twf hanesyddol yn cael ei allosod ar gyfer carfan y boblogaeth Dderbyn i greu gwaelodlin.
- Yna caiff y niferoedd disgyblion o safleoedd tai maes glas strategol eu dosrannu rhwng y cyfrwng Cymraeg a'r cyfrwng Saesneg ar gymhareb 50:50
- Ychwanegir nifer y disgyblion Cymraeg o'r tai newydd ar i'r ffigur gwaelodlin ar gyfer y nifer sydd am addysg Gymraeg mewn cymunedau sefydledig, er mwyn rhoi cyfanswm nifer y disgyblion sy'n mynd i addysg Gymraeg

Drwy gyfuno'r data hwn o'r safleoedd maes glas gyda data'r cymunedau presennol, crëwyd taflwybr ar gyfer Caerdydd, i nodi nifer posibl y disgyblion cyfrwng Cymraeg os ychwanegir lleoedd cyfrwng Cymraeg ychwanegol.

## Amcanestyniadau nifer disgyblion


Mae amcanestyniadau poblogaeth Llywodraeth Cymru a'r patrwm cyfraddau geni cylchol blaenorol yn rhoi syniad o sut y gallai nifer y disgyblion mewn ysgolion newid dros y degawdau nesaf.

Cynyddodd canran y disgyblion sy'n cofrestru mewn dosbarthiadau Derbyn Cymraeg 0.25% y flwyddyn rhwng 2015/16 a 2020/21.

Y nifer o blant a ragamcennir i fynd i’r flwyddyn dderbyn mewn addysg Gymraeg yw'r nifer a ragamcennir os bydd y patrymau a'r tueddiadau presennol, o'u cymharu â'r boblogaeth, yn parhau.

Os bydd canran y disgyblion yn cynyddu ar yr un gyfradd rhwng 2021 a 2030, byddai 20% o ddisgyblion sy'n dechrau yn y Dosbarth Derbyn ym mis Medi 2030 yn mynychu ysgolion Cymraeg.

Ffigur 14: Cynnydd a ragamcennir yng nghanran y disgyblion cyfrwng Cymraeg 2021-2030





Mae'r amcanestyniad hwn yn ymwneud â'r patrwm twf diweddar mewn cymunedau sefydledig, a all fod yn wahanol i ddatblygiad y safleoedd tai strategol mawr fel y nodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol. Nid yw amcanestyniadau'n dangos unrhyw newidiadau i batrymau ymddygiad nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu yn y data hanesyddol, megis darpariaeth yn y dyfodol a/neu newidiadau polisi.

Mae cyfuno'r patrwm twf cynhenid a nodir yn ffigur 11, gyda data amcanestyniadau niferoedd disgyblion y safleoedd datblygu tai strategol, yn caniatáu cymharu'r taflwybrau twf oed derbyn Cymraeg isod, sef:

- parhad ar y twf cynhenid ledled y ddinas (h.y. twf ar sail y patrwm diweddar, tystiolaethol) mewn cymunedau sefydledig
- rhagolwg gan ystyried cynnydd yn y niferoedd ar safleoedd tir glas strategol (ar gyfradd uwch) sy’n manteisio ar addysg Gymraeg, a
- y taflwybr sy'n angenrheidiol i gyrraedd y trothwy targed o 25%, a'r trothwy ar gyfer 27% a 29%

Fel yr amlinellwyd ar dudalen 21, yn absenoldeb cynigion datblygedig, mae'r Cyngor wedi modelu newidiadau o ran capasiti yn seiliedig ar ddarpariaeth ysgol newydd sydd yn 50% cyfrwng Cymraeg ar safleoedd tir glas strategol.

Mae Ffigur 15 (isod) yn cynnig cymhariaeth o'r taflwybrau hyn.




Mae twf blynyddol yn seiliedig ar CYBLD 2015/16 – 2020/21 yn rhoi twf o tua 0.25% y flwyddyn.

Mae ychwanegu'r boblogaeth bosibl o bobl yn symud i'r safleoedd CDLl, a chymryd bod 50% o'r plant yma yn mynd i addysg Gymraeg, yn rhoi cyfradd twf bosibl gyfunol o 0.52% y flwyddyn. Fodd bynnag, byddai'r twf cyfunol hwn yn dal i fod yn annigonol i gyrraedd y targedau cyhoeddedig.

Er mwyn cyflawni'r dangosydd trothwy o 25% erbyn 2030, mae angen tua 0.75% o dwf blynyddol.

Er mwyn cyflawni 27% erbyn 2030, mae angen tua 0.95% o dwf blynyddol.

Er mwyn cyrraedd y trothwy uchaf o 29% erbyn 2030, mae angen tua 1.15% o dwf blynyddol.

Mae'r taflwybr yn dangos y byddai canran y disgyblion mewn addysg Gymraeg yn cyrraedd y targed ystod is o 25% o ddisgyblion oedran Derbyn mewn addysg Gymraeg erbyn mis Medi 2030 os cyflawnir twf ychwanegol o 0.23% y flwyddyn yn seiliedig ar

hanner yr holl ddisgyblion sy'n byw ar y safleoedd strategol yn ymgymryd â darpariaeth Gymraeg.

Mae Tabl 11 isod yn nodi'r nifer a ragamcennir o blant yn y garfan berthnasol, ym mhob blwyddyn academaidd, y niferoedd a fodelwyd ar gyfer dosbarthiadau Derbyn Cymraeg, a nifer y plant y byddai angen iddynt gofrestru mewn dosbarthiadau Derbyn Cymraeg er mwyn gwneud cynnydd cyson yn erbyn y targedau a bennwyd.

| Blwyddyn Academaidd | Prif amcanestyniad poblogaeth | Twf cynhenid a ragamcennir (cymunedau sefydledig) | Twf cynhenid + twf cymunedau CDLl | Twf i gyrraedd targed o 25% | Twf i gyrraedd targed o 27% | Twf i gyrraedd targed o 29% |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2021/22 | 3937 | 696 | 700 | 720 | 728 | 735 |
| 2022/23 | 3810 | 687 | 685 | 725 | 740 | 755 |
| 2023/24 | 3777 | 690 | 704 | 747 | 770 | 792 |
| 2024/25 | 3822 | 708 | 728 | 785 | 815 | 846 |
| 2025/26 | 3801 | 714 | 759 | 809 | 847 | 885 |
| 2026/27 | 3781 | 719 | 776 | 833 | 878 | 924 |
| 2027/28 | 3774 | 728 | 796 | 860 | 913 | 965 |
| 2028/29 | 3777 | 738 | 815 | 889 | 949 | 1010 |
| 2029/30 | 3780 | 748 | 833 | 918 | 986 | 1054 |
| 2030/31 | 3937 | 757 | 850 | 946 | 1021 | 1096 |

# Casgliadau

Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i gyrraedd y targedau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, ac ar ddarparu digon o leoedd ysgol Cymraeg i gefnogi'r cynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar addysg Gymraeg a fyddai'n angenrheidiol i gyflawni'r targedau hyn. Er bod twf wedi bod yn y nifer sy'n manteisio ar leoedd dros y pum mlynedd diwethaf, byddai parhau â thueddiadau'r gorffennol yn golygu na fyddai Caerdydd yn cyrraedd y targedau a bennwyd.

Mae datblygiadau tai newydd yn y ddinas yn cynnig cyfle i gyflymu'r nifer sy'n manteisio ar addysg Gymraeg, gan fod y cynnydd yn y boblogaeth o'r tai newydd yn ddigonol i'w gwneud yn ofynnol i godi ysgolion newydd fel rhan o'r datblygiadau. Byddai ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg yn cefnogi cynnydd yn nifer y disgyblion fyddai'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Mae mabwysiadu CSCA deng mlynedd yn cefnogi Awdurdodau Lleol i osod ymagwedd hirdymor, strategol a chynaliadwy ger bron ar gyfer twf addysg Gymraeg. Mae data cyfraddau geni a phoblogaeth ar gael ar gyfer y plant hynny sy'n mynd i addysg gynradd o 2021 i flwyddyn ysgol 2024/25, ond nid oes data cadarn ar gael y tu hwnt i'r cyfnod hwn.

**2021/2022 – 2025/2026**

O'i gymharu â data diweddaraf y cyfrifiad ysgolion ar gyfer dosbarthiadau Derbyn ym mis Ebrill 2021, mae'r capasiti presennol mewn ysgolion cynradd Cymraeg a dosbarthiadau o 27.9DM yn gadael c10% o lefydd gwag mewn dosbarthiadau Derbyn Cymraeg.

Mae'r capasiti presennol o 27.9DM wrth fynd i'r Flwyddyn Dderbyn yn ddigonol i ddarparu ar gyfer hyd at 20.3% o'r boblogaeth ddisgyblion, y disgwylir iddynt gofrestru yn hydref 2021.

Mae data Derbyn i Ysgolion yn dangos, yn sgil poblogaeth is, mai c.690 o ddisgyblion a gaiff eu derbyn yn hydref 2021, a bod y gwarged yn debygol o gynyddu i >15% gyda niferoedd yr hydref 2021. Byddai'r lefel uwch o leoedd gwag ledled y ddinas yn cefnogi'r Cyngor i gynyddu canran y boblogaeth sy'n manteisio ar leoedd Cymraeg yn y dyfodol.

O'i gymharu â phrif amcanestyniadau poblogaeth Llywodraeth Cymru, byddai'r capasiti presennol o 27.9DM yn ddigonol i ddarparu ar gyfer hyd at 21.8% o'r boblogaeth ddisgyblion, y disgwylir iddynt gofrestru ym mlwyddyn ysgol 2024/2025.

Byddai'r cynigion a nodwyd eisoes i gynyddu'r capasiti i 31.9DM erbyn 2025, i fodloni ac i yrru'r galw mewn rhannau o'r ddinas, yn caniatáu hyd at 25.2% o boblogaeth disgyblion oed Derbyn ledled y ddinas i gofrestru erbyn 2025/2026.

Er mwyn gwneud cynnydd cyson tuag at y targed o rhwng 25% a 29% o'r garfan Dderbyn sy'n cofrestru ar gyfer addysg Gymraeg erbyn diwedd cyfnod y cynllun yn 2031, yn seiliedig ar brif amcanestyniadau Llywodraeth Cymru, y targedau interim ar

gyfer blwyddyn 2025/2026 fyddai rhwng 809 o ddisgyblion (21.3% o'r boblogaeth) ac 885 o ddisgyblion (23.3%).

Mae cymharu’r ffigurau hyn yn erbyn y capasiti a gynlluniwyd yn dangos y byddai rhwng 7.4% a 15.4% o warged wrth fynd i'r Flwyddyn Dderbyn mewn ysgolion a dosbarthiadau cynradd Cymraeg yn 2025/2026, gan ystyried y ddarpariaeth arfaethedig o 31.9DM. Pe bai Caerdydd yn anelu at ganol yr ystod darged (27%), byddai 11.4% o warged.

Byddai rhwng 24.4% a 26.3% o warged hefyd mewn darpariaeth gymunedol Saesneg a ffydd Saesneg ar y pwynt hwn, gan ystyried darpariaeth o 131.9DM.

Er y byddai angen lefel resymol o warged yn y sector Cymraeg i gefnogi twf yn y dyfodol, rhaid ystyried yr effaith ar y ddarpariaeth ysgolion bresennol o gario lefel uchel o leoedd gwag yn y sector Saesneg.

**2026/2027 – 2030/2031**

Gallai'r ddarpariaeth ysgolion newydd o hyd at wyth dosbarth mynediad a gynlluniwyd i wasanaethu'r cymunedau newydd ar ddatblygiadau tai strategol yng ngogledd-orllewin a gogledd-ddwyrain y ddinas gynyddu capasiti addysg gynradd Gymraeg ymhellach i 1,076 o leoedd (35.9DM) erbyn 2031.

O'i gymharu â'r amcanestyniad poblogaeth o 3,937, byddai hyn yn caniatáu i c.27.3% o’r boblogaeth oed Derbyn ledled y ddinas gofrestru. Gan ystyried y niferoedd a fodelwyd yn nhabl 11, gallai’r cynigion a nodwyd eisoes ddarparu hyd at 12% o warged ar adeg derbyn i ysgolion cynradd Cymraeg yn 2030/2031, pe bai 25% o blant yn cymryd lleoedd mewn darpariaeth Gymraeg.

O'i gymharu â'r amcanestyniad poblogaeth o 3,937, byddai angen nodi cynigion pellach fel rhan o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Caerdydd er mwyn i Gaerdydd gyrraedd y trothwy targed uchaf o 29%.